





# Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022

Medi 2022

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1.0 | Rhagarweiniad | 3 |
| 1.1 | Cyd-destun | 3 |
| 1.2 | Gweledigaeth | 5 |
| 1.3 | Llywodraethu | 5 |
| 1.4 | Ymgysylltu | 6 |
| | | |
| 2.0 | Dadansoddi digartrefedd | 7 |
| 2.1 | Cyd-destun | 7 |
| 2.2 | Cyflwyniadau | 12 |
| 2.3 | Asesiad y Farchnad Dai Leol | 24 |
| 2.4 | Casgliad | 25 |
| | | |
| 3.0 | Asesu Anghenion Cefnogaeth | 26 |
| 3.1 | Cyd-destun | 26 |
| 3.2 | Niferoedd | 26 |
| 3.3 | Anghenion cymorth | 29 |
| 3.4 | Gofynion llety | 30 |
| 3.5 | Asesu/prif ffrydio parhaus | 37 |
| | | |
| 4.0 | Cyflenwad llety dros dro lleol | 38 |
| 4.1 | Data sylfaenol | 38 |
| 4.2 | Defnydd | 43 |
| 4.3 | Cynwysoldeb | 45 |
| | | |
| 5.0 | Trawsnewid Llety Dros Dro | 46 |
| 5.1 | Gweledigaeth | 46 |
| 5.2 | Heriau Allweddol | 46 |
| 5.3 | Cynllun Trawsnewid | 47 |
| | | |
| 6.0 | Datblygu'r Cynllun | 48 |
| 6.1 | Gweledigaeth | 48 |
| 6.2 | Atal Digartrefedd | 48 |
| 6.3 | Trawsnewid Ailgartrefu Cyflym | 49 |
| 6.4 | Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb / Economaidd-gymdeithasol Cychwynnol | 52 |
| | | |
| 7.0 | Cynllunio Adnoddau | 53 |
| 7.1 | Adnoddau presennol | 53 |
| 7.2 | Staffio | 56 |
| 7.3 | Blaenoriaethau | 57 |
| 7.4 | Cynllun adnoddau | 57 |

## 1.0 Rhagarweiniad

Mae'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (y Cynllun) yn amlinellu sut fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn gweithio tuag at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru i wneud digartrefedd yn rhywbeth 'prin, cryno ac na chaiff ei ailadrodd'.


Atal digartrefedd yw prif ffocws y Cynllun. Lle nad yw ataliaeth wedi gweithio, y nod yw darparu llety sefydlog cyn gynted â phosibl a sicrhau bod y gefnogaeth briodol ar waith (lle bo angen) i sicrhau nad yw digartrefedd yn cael ei ailadrodd.

I gyflawni hyn, mae angen newid y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu'r newidiadau sydd eu hangen dros y bum mlynedd nesaf a thu hwnt. Gan nad tai yw'r ateb i bob problem mewn perthynas â digartrefedd, mae angen cryfhau'r trefniadau gwaith partneriaeth gyda gwasanaethau allweddol, mae adran 1.3 a 1.4 isod yn amlinellu'r trefniadau gwaith partneriaeth o ran datblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun.

Mae'r wybodaeth o fewn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.

## 1.1 Cyd-destun

Mae'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yn un o dair strategaeth a ddatblygwyd i gefnogi gweithrediad Strategaeth Tai Lleol Conwy.




Ein gweledigaeth yn y Strategaeth Tai Lleol yw i 'bobl yng Nghonwy gael mynediad at lety fforddiadwy, priodol ac o safon dda sy'n gwella ansawdd eu bywydau', mae 4 amcan allweddol i gyflawni hyn:

- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy
- Sicrhau bod cefnogaeth tai ar gael i'r rhai sydd ei hangen
- Gwella ansawdd y sector preifat
- Sicrhau bod pobl yn deall eu dewisiadau tai, er mwyn iddynt fedru gwneud penderfyniad cytbwys

Mae'r sector rhent cymdeithasol yng Nghonwy (11.6%) yn weddol fach o'i gymharu â gweddill Cymru (16.4%) ac mae'n cynnig un o'r stociau tai cymdeithasol isaf fesul pen yn y boblogaeth yng Nghymru gyfan. Mae'r diffyg stoc tai cymdeithasol wedi golygu fod nifer o aelwydydd incwm isel yn gorfod dibynnu ar y sector rhentu preifat am lety yng Nghonwy. Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd yn Strategaeth Tai Lleol Conwy yn 2018 yn dangos bod 18% o aelwydydd yng Nghonwy'n rhentu'n breifat, mae'r ffigwr hwn yn uchel o'i gymharu ag 14% ar draws Cymru.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae cyfartaledd o 1102 o ymgeiswyr wedi bod ar y gofrestr tai, fodd bynnag, ar 1 Ebrill 2022, roedd y ffigwr hwn wedi cynyddu i 1719 o ganlyniad i nifer o ffactorau allanol megis y Pandemig Covid-19, newidiadau i incwm aelwydydd a chostau byw, a newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru megis gwaredu angen blaenoriaethol. Ar gyfartaledd, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae 60 o unedau tai cymdeithasol newydd wedi cael eu darparu ac mae 307 o unedau ar gael o ganlyniad i drosiant eiddo. Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y galw'n cynyddu'n gynt na'r cyflenwad.

Mae cyllideb grant tai cymdeithasol blynyddol ar gael i gefnogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu a chynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy. Dyrennir y grant tai cymdeithasol i ddatblygiadau sy'n bodloni'r angen am dai lleol a blaenoriaethau strategol, fel yr amlinellir yn y Prosbectws Tai Lleol. Cyhoeddir y Prosbectws yn flynyddol ac mae'n darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar gymdeithasau Landlordiaid Tai Cymdeithasol a budd-ddeiliaid eraill i wneud penderfyniadau gwybodus am ble i chwilio am dir ac eiddo i ddarparu tai fforddiadwy newydd.

Ym mis Mehefin 2021, cyhoeddodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, darged newydd Llywodraeth Cymru i ddarparu 20,000 o dai cymdeithasol carbon isel i'w rhentu, cartrefi canolradd i'w rhentu a chartrefi cydberchnogaeth yn ystod y Llywodraeth hwn. I gefnogi hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £50 miliwn ychwanegol i'r gyllideb tai cymdeithasol yng Nghymru, gan ddod â chyfanswm y dyraniad i £250 miliwn. Yng Nghonwy, fe wnaeth hyn arwain at ddyraniad Grant Tai Cymdeithasol o £8.5 miliwn yn 2021/22. Disgwylir i lefel y cyllid barhau gyda chyllideb ddangosol flynyddol o £12 miliwn dros y tair blynedd nesaf.

Cydnabyddir, fodd bynnag, nad yw'r datblygiad tai cymdeithasol newydd yn ddigon i fodloni'r galw presennol ac yn y dyfodol. Mae gan y sector breifat rôl bwysig yn y farchnad dai, yn galluogi pobl a theuluoedd i ddod o hyd i'r cartref cywir iddyn nhw. Felly, mae cyllid bellach ar gael i ddatblygu a gweithredu mentrau i wella cyflwr tai a chynyddu'r cyflenwad llety sector preifat ar lefelau rhent fforddiadwy, mae hyn yn cynnwys gwireddu potensial eiddo gwag.

Mae CBSC yn darparu gwasanaeth cartrefi gwag, mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cyngor a chefnogaeth i berchnogion cartrefi gwag i ddod â'u heiddo yn ôl i ddefnydd. Ar hyn o bryd, mae 1685 eiddo yng Nghonwy wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac mae 25 eiddo gwag ar gyfartaledd yn dod yn ôl i defnydd bob blwyddyn, mae hyn yn gyfystyr â 1.5%.

Cyhoeddodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad ym mis Hydref 2019 yn manylu sut gallai LlC ac awdurdodau lleol wella'r gwasanaeth cartrefi gwag yng Nghymru. Un o'r argymhellion oedd rhoi strategaeth cartrefi gwag lleol a chynllun gweithredu ar waith.

Datblygodd CBSC strategaeth cartrefi gwag a chynllun gweithredu yn 2018 a sefydlu gweithgor yn cynnwys budd-ddeiliaid allweddol i gefnogi'r gweithrediad. Gwnaethpwyd nifer o newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth er mwyn cyflawni'r nod strategol o leihau nifer yr eiddo gwag yng Nghonwy yn sylweddol a gwireddu'r potensial tai. Mae ffocws arbennig ar ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a'u cynnig ar lefelau rhent fforddiadwy, a thargedu'r mathau o eiddo a fydd yn cyd-fynd ag anghenion aelwydydd digartref.

Yn ogystal â hynny, dyrannwyd £40 miliwn ychwanegol i'r Grant Cymorth Tai ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r Grant Cymorth Tai'n rhaglen grant ymyrraeth gynnar sy'n cefnogi gweithgarwch i atal pobl rhag dod yn ddigartref, eu helpu i gael cartref sefydlog, neu helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ganfod a chadw llety. Sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Medi 2020, i ddarparu fforwm ar gyfer cydweithio a goruchwylio gweithgareddau'r Grant Cymorth Tai.

Cyhoeddwyd Strategaeth Rhaglen Grant Cymorth Tai Conwy ym mis Chwefror 2022, yn dilyn asesiad o anghenion cadarn. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer ein gwasanaethau atal digartrefedd a chymorth tai ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Nod y strategaeth yw defnyddio agwedd dull rhagweithiol mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ac atal digartrefedd. Lle na ellir atal digartrefedd, y nod yw sicrhau bod cefnogaeth a/neu lety ar gael i helpu pobl i adennill eu lle yn y gymuned o'u dewis; cynnal eu llety a pharhau i fod yn annibynnol.

Cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2015, ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol i helpu i atal digartrefedd ar gyfer unrhyw un sy'n gofyn am gymorth gan roi rhagor o ffocws ar ymyrraeth gynnar ac ymestyn diffiniad y rhai dan fygythiad digartrefedd o 28 diwrnod i 56 diwrnod.

Yn dilyn atal yr asesiad o angen blaenoriaethol yn 2020, cynyddodd nifer yr aelwydydd yr oedd y ddyletswydd ail-gartrefu lawn (Adran 75) yn berthnasol iddynt i 263 yn 2021/22, o'i gymharu â 128 yn 2019/20. Mae cynnydd hefyd wedi bod yn nifer yr aelwydydd sy'n ymofyn llety dros dro. Roedd 279 o aelwydydd mewn llety dros dro ar 31 Mawrth 2022 o'i gymharu â 144 aelwyd ar 31 Mawrth 2020. Y cyfnod

cyfartalog yr oedd pobl yn ei dreulio mewn llety dros dro yn 2021/22 oedd 224 diwrnod, o'i gymharu â 158 diwrnod yn 2019/20. Mae hyn yn cynnwys pob aelwyd a dreuliodd gyfnod mewn llety dros dro yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'r rheiny a adawodd.

Ym mis Mehefin 2019, sefydlodd Llywodraeth Cymru (LlC) y Grŵp Gweithredu Digartrefedd i argymell y camau sy'n ofynnol i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru. Cyhoeddodd LlC ei Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ym mis Hydref 2019. Mae'n nodi'r angen i symud i ffwrdd o'r model 'grisiau' o flaenoriaethu ar sail teilyngdod wrth ddarparu gwasanaethau i ddull Ailgartrefu Cyflym. Mae hyn yn golygu symud oddi wrth ddarparu gwasanaethau brys, dros dro a hosteli, a chanfod datrysiadau tai hirdymor yn hytrach. Bydd hyn yn cynnwys deall pa dai sydd eu hangen a sut y gellir ariannu, datblygu a dyrannu tai.

Mae strategaeth LlC yn nodi egwyddorion sy'n cefnogi atal digartrefedd y dylid eu hadlewyrchu ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y canlynol:

- Mae atal a mynd i'r afael â digartrefedd yn fater i'r gwasanaethau cyhoeddus
- Yr ymyraethau cynharaf yw'r rhai gorau a mwyaf cost effeithlon, ac fe ddylai'r rhain fod yn ddewis cyntaf bob tro
- Dylai bob gwasanaeth roi'r unigolyn wrth wraidd eu gwaith a gweithio gyda'i gilydd mewn modd sy'n deall trawma

Caiff yr egwyddorion hyn eu cynrychioli drwy ddull ailgartrefu cyflym.

### 1.2 Gweledigaeth

Mae gweledigaeth Ailgartrefu Cyflym Conwy fel a ganlyn:

*'Mae gwasanaethau allweddol yn darparu dull cydlynol i weithgarwch atal digartrefedd er mwyn sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin yng Nghonwy. Lle nad oes modd atal digartrefedd, gall pobl symud i lety sefydlog yn gyflym a chael mynediad at* ***gymorth priodol, er mwyn sicrhau na chaiff digartrefedd ei ailadrodd.*** *Os oes angen llety dros dro, bydd yn cael ei ddefnyddio am gyfnod byr yn unig.*

Mae pedwar amcan allweddol i gyflawni hyn:

- Trawsnewid ansawdd a defnydd llety dros dro
- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy
- Sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen
- Cryfhau trefniadau gwaith partneriaeth i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu ar draws pob gwasanaeth

Mae Conwy'n ymrwymo i weithio i gyflawni'r dull Ailgartrefu Cyflym. Mae'r argyfwng iechyd diweddar wedi pwysleisio pwysigrwydd cartref diogel a sefydlog i bawb, ond mae'r pandemig wedi arwain at argyfwng tai fforddiadwy. Rydym yn wynebu heriau sylweddol, yn arbennig mewn perthynas â chynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy.

### 1.3 Llywodraethu

Bydd y Bartneriaeth Strategol Tai'n monitro ac yn cefnogi gweithrediad y Cynllun. Sefydlwyd y Bartneriaeth yn 2014 i gydlynu a chryfhau gweithgarwch mewn perthynas â thai ar draws y Cyngor a'i sefydliadau partner. Mae aelodau'n cynnwys partneriaid gwasanaeth allweddol mewnol ac allanol ar lefel uwch.

Caiff gwaith y Bartneriaeth ei graffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n flynyddol.

Bydd grŵp llywio strategol ehangach o wasanaethau allweddol a phartneriaid lleol yn cael ei sefydlu er mwyn cryfhau'r trefniadau gwaith partneriaeth ar y lefel gywir a darparu'r Cynllun yn effeithiol. Bydd hyn yn sicrhau fod bob partner yn gallu nodi ei rôl ei hun yn y gwaith o atal digartrefedd.

### 1.4 Ymgysylltu

Cafodd y Cynllun Ailgartrefu Cyflym ei roi allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o 30.9.22 i 11.11.22. Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn budd-ddeiliaid allweddol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau i gyflawni 'Ailgartrefu Cyflym'. Mae Conwy wedi ymrwymo i wrando ar farn budd-ddeiliaid ac wedi defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu'r Cynllun hwn.

Roedd arolwg ar-lein ar gael am hyd y cyfnod ymgynghori. Cafodd 12 o arolygon eu cwblhau, a chafodd yr arolygon eu cwblhau gan:

| | |
|---|---|
| Aelodau Etholedig | 2 |
| Landlordiaid | 1 |
| Preswylwyr Lleol | 4 |
| Sefydliad | 5 |

O'r 4 sefydliad a gwblhaodd yr arolwg:

- Cafodd 1 ei gwblhau gan Blismona Lleol, Heddlu Gogledd Cymru.
- Cafodd 1 ei gwblhau gan y Fenter Kind Bay
- Cafodd 1 ei gwblhau gan Adferiad Recovery.
- Cafodd 2 ei gwblhau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cynhaliwyd 6 grŵp ffocws yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda phobl oedd wedi profi digartrefedd a/neu mewn risg o ddigartrefedd. Mynychodd 24 o bobl, roedd oedran y cyfranogwyr yn amrywio o 18 i 58. Cydlynwyd a hwyluswyd y digwyddiadau gan Shelter Cymru a'r Prosiect Take Notice, ac fe'u cynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- Dydd Mercher 19 Hydref
- Dydd Mawrth 25 Hydref (digwyddiad bore a nos)
- Dydd Iau 27 Hydref (digwyddiad bore a nos)
- Dydd Mercher 9 Tachwedd

Cynhaliwyd gweithdy ar ddydd Mercher 26 Hydref gyda sefydliadau sy'n chwarae rhan allweddol i atal digartrefedd a/neu'n darparu gwasanaethau cefnogi. Mynychodd 36 o bobl oedd yn cynrychioli 26 o sefydliadau/adrannau.

| Mynychwyr o'r Cyngor | Partneriaid Allanol oedd yn Bresennol |
|---|---|
| Strategaeth Dai – 5<br>Datrysiadau Tai – 2<br>Gofal Cymdeithasol – 4 (Pobl Hŷn, Anableddau, Lles Cymunedol, Safonau Ansawdd a Chomisiynu)<br>Cefnogi Pobl - 3<br>Cyfiawnder Ieuenctid - 1<br>Datblygiad Economaidd – 1<br>Cynllunio – 1<br>Cymunedau am Waith – 1<br>Economi a Diwylliant – 1<br>CYFANSWM – 19 yn bresennol | Grŵp Cynefin – 1<br>Tai Gogledd Cymru – 1<br>Adra – 1<br>Wales and West – 1<br>Clwyd Alyn – 1<br>Clearsprings – 1<br>Yr Adran Gwaith a Phensiynau – 1<br>Yr Heddlu – 2<br>Gofal Sylfaenol Iechyd – 1<br>Iechyd Meddwl – 1<br>Bwrdd Cynllunio Ardal – 1<br>Shelter – 1<br>Kind Bay – 1<br>CGGC – 1<br>Alabare – 1<br>Y Ganolfan Groeso – 1<br>CYFANSWM – 17 yn bresennol |

## 2.0 Dadansoddi Digartrefedd

Mae'r adran hon o'r Cynllun yn darparu gwybodaeth am ffactorau cyd-destunol perthnasol yng Nghonwy ac mewn perthynas ag aelwydydd sydd wedi ymgeisio am gymorth digartrefedd, er mwyn deall gofynion tebygol y gwasanaeth dros y 5 mlynedd nesaf a'r diffyg tai y mae gofyn mynd i'r afael ag o.

## 2.1 Cyd-destun

Mae gan Gonwy boblogaeth o 115,228 ( Cyfrifiad 2011). Mae'r proffil oedran yn dangos bod cyfran gyfartalog uwch o oedolion oedran ymddeol a chyfran is o aelwydydd plant ac oedran gweithio.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 53 350 o aelwydydd ac oddeutu 57,850 o anheddau. Mae rhwng un a dau o bobl yn byw yn y mwyafrif o aelwydydd ar hyn o bryd.

***Budd-daliadau'n Ymwneud â Thai***

Mae cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth sy'n talu'n dda yn y Fwrdeistref Sirol yn brin; mae'r economi'n dibynnu'n drwm ar ddiwydiannau twristiaeth a gwasanaethau. Mae'r cyfraddau cyflogaeth o fewn gwasanaethau manwerthu, llety a bwyd, a'r celfyddydau, adloniant a hamdden yn y sector twristiaeth yn uchel -cyfanswm o oddeutu 32% o bob swydd o'i gymharu â 21% yn genedlaethol. Y sectorau hyn yw'r rhai mwyaf tebygol o gynnig cyflogau is, contractau rhan amser neu dymhorol, a dyma'r meysydd cyflogaeth sydd wedi wynebu'r heriau mwyaf yn sgil effeithiau'r pandemig yn 2020 a 2021.

Roedd nifer y bobl a oedd yn derbyn budd-daliadau'n ymwneud â thai wedi bod yn gostwng yn raddol rhwng gwanwyn 2013 a hydref 2018, ond dechreuodd gynyddu'n raddol yn dilyn hynny. Fe wnaeth y pandemig Covid-19 a'r newid a achosodd i sefyllfaoedd tai ac incwm aelwydydd pobl arwain at gynnydd yn nifer y derbynwyr ddiwedd mis Ebrill 2020 ac mae'r nifer hwn wedi parhau i gynyddu ers hynny. Ym mis Awst 2020, roedd 10,069 o aelwydydd yn derbyn budd-daliadau'n ymwneud â thai. Mae hyn yn gynnydd o 1,324 neu 15.1% ers y flwyddyn flaenorol.

Mae cyfran y rheiny sy'n derbyn budd-daliadau tai ac yn byw o fewn y sector rhentu preifat yn llawer uwch ym Mwrdeistref Sirol Conwy o'i gymharu â'r wlad gyfan, sy'n adlewyrchu'r diffyg tai cymdeithasol o fewn y stoc dai a'r ddibyniaeth gynyddol ar y sector rhentu preifat i ddarparu ar gyfer y rheiny mewn angen cymdeithasol a chanolradd.

Nodweddion derbynwyr budd-daliadau tai
Ffynhonnell: Stat-Xplore, Yr Adran Gwaith a Phensiynau

| | Bwrdeistref Sirol Conwy | | Cymru | Prydain |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | % | % |
| **Cyfanswm y derbynwyr (Awst 2020)** | 10,069 | | 277,251 | 5,636,147 |
| **Aelwydydd gyda phlant** | 3,250 | 32.3% | 35.1% | 36.5% |
| **Teuluoedd rhieni sengl** | 2,206 | 21.9% | 24.1% | 24.4% |
| **Cwpwl gyda phlant** | 1,044 | 10.4% | 10.9% | 12.1% |
| **Aelwyd un unigolyn** | 5,760 | 57.2% | 55.2% | 54.9% |
| **Nodweddion derbynwyr budd-daliadau tai yn unig** | | | | |
| **Cyfanswm y derbynwyr budd-daliadau tai (Awst 2020)** | 5,972 | | 160,243 | 3,044,777 |
| **Mewn gwaith** | 547 | 9.2% | 8.1% | 14.2% |
| **Pensiynwr sengl (65 oed +)** | 2,003 | 33.5% | 31.1% | 32.1% |

Fel cyfran o'r holl dderbynwyr budd-daliadau tai, mae gan CBSC nifer uwch o aelwydydd gydag un unigolyn yn unig a llai o aelwydydd gyda phlant o'i gymharu â'r niferoedd cenedlaethol. Er mai dim ond ar

gyfer yr elfen Budd-daliadau Tai blaenorol y mae gwybodaeth am strwythur oedran ar gael, mae data hefyd yn awgrymu bod derbynwyr yng Nghonwy'n hŷn na'r cyfartaledd cenedlaethol.

***Incwm Tai***

Mae'r tabl isod yn dangos incwm aelwydydd chwartel isaf a chanolrif a'r ddengradd isaf ar draws y DU a Chymru a Chonwy ym mis Ebrill 2021. Mae proffiliau incwm aelwydydd yng Nghonwy ychydig yn uwch nag aelwydydd yng Nghymru.

| Ardal | Cyfanswm Aelwydydd | Incwm Canolrifol | Chwartel Isaf | Dengradd Isaf |
|---|---|---|---|---|
| Y Deyrnas Unedig | 28,320,359 | £32,550 | £18,050 | £10,500 |
| Cymru | 1,379,337 | £27,850 | £15,900 | £ 9,300 |
| Gogledd Cymru | 307,650 | £27,850 | £16,100 | £9,400 |
| CBS Conwy | 53,233 | £28,300 | £16,350 | £9,750 |


***Perchnogaeth Tai***

Mae'r pris tŷ cyfartalog ar hyn o bryd 7.3 gwaith yr incwm aelwydydd cyfartalog o £28,300 a 12.7 gwaith incwm aelwydydd y chwartel isaf o £16,350. Mae prisiau tai wedi codi 60% yn y ddeng mlynedd ddiwethaf, a dim ond 33% mae lefelau incwm wedi cynyddu yn yr un cyfnod. O'i gymharu â mis Chwefror 2020, mae prisiau tai Conwy wedi cynyddu 24% (cyfartaledd y DU yw 14%).

***Tai Cymdeithasol***


Fel yr amlinellir yn adran 1.1, mae'r sector rhentu cymdeithasol yng Nghonwy (11.6%) yn eithaf bach o'i gymharu â gweddill Cymru (16.4%). Mae'r stoc dai cymdeithasol yn cynnwys 4,603 (66.8%) o eiddo anghenion cyffredinol a 1,376 (20%) o unedau llety gwarchod.

Mae'r graff isod yn dangos y cyflenwad tai cymdeithasol blynyddol (darpariaeth adeiladau newydd a throsiant y stoc bresennol) a'r galw (y gofrestr tai cymdeithasol ar 01 Ebrill bob blwyddyn):




Er bod y ddarpariaeth tai newydd wedi cynyddu yn y pedair blynedd ddiwethaf, mae trosiant y stoc bresennol wedi gostwng a'r galw wedi cynyddu. O ganlyniad, mae'r bwlch rhwng y cyflenwad a'r galw'n cynyddu.

Mae'r graff isod yn dangos y cyflenwad blynyddol (darpariaeth adeiladau newydd a throsiant y stoc bresennol) a'r galw (y gofrestr tai cymdeithasol ar 01 Ebrill bob blwyddyn) wedi'i rannu yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely:




| | 1 ystafell wely | 2 ystafell wely | 3 ystafell wely | 4 ystafell wely | 5 ystafell wely | 6 ystafell wely | 7 ystafell wely | 8 ystafell wely | 9 ystafell wely |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2018/19 Cyflenwad | 165 | 220 | 61 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2019/20 Cyflenwad | 170 | 125 | 86 | 16 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2020/21 Cyflenwad | 171 | 103 | 54 | 8 | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 |
| 2021/22 Cyflenwad | 148 | 130 | 57 | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 2018/19 Galw | 423 | 269 | 129 | 95 | 27 | 6 | 1 | 1 | 0 |
| 2019/20 Galw | 436 | 291 | 179 | 107 | 30 | 7 | 4 | 0 | 0 |
| 2020/21 Galw | 431 | 306 | 182 | 104 | 30 | 13 | 3 | 1 | 0 |
| 2021/22 Galw | 575 | 371 | 211 | 132 | 26 | 12 | 3 | 1 | 1 |

Mae'r graff yn dangos mai lletyau ag un ystafell wely ac eiddo mwy (4+ ystafell wely) sydd fwyaf prin. Mae'n flaenoriaeth strategol i gynyddu niferoedd y math hwn o lety, ac mae hyn wedi'i nodi ym mhrosbectws tai'r awdurdod lleol.

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r galw; cyfanswm y ceisiadau bob blwyddyn, wedi'i rannu yn ôl bandiau ar y gofrestr tai.

Ymgeiswyr ar y gofrestr tai ar 1 Ebrill:
Ffynhonnell: Data Un Llwybr Mynediad at Dai (ULlMaD)

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y ceisiadau** | 1,127 | 1,083 | 1,202 | 1,719 |
| **B1** | 150 | 140 | 150 | 239 |
| **B2** | 783 | 773 | 878 | 1,296 |
| **B3** | 8 | 7 | 7 | 9 |
| **B4** | 186 | 163 | 167 | 175 |

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y ceisiadau (517) rhwng 1 Ebrill 2021 ac 1 Ebrill 2022, gyda chynnydd sylweddol ym Mandiau 1 a 2. Mae'r bandiau hyn ar gyfer yr ymgeiswyr sydd ag anghenion taid sylweddol, gyda'r mwyafrif o ymgeiswyr digartref ym Mand 2.

***Prydlesi uniongyrchol***

Yn 2020, mabwysiadwyd gweithdrefn ddyrannu dros dro i gynyddu nifer yr aelwydydd digartref y dyrennir tŷ cymdeithasol ar eu cyfer drwy 'Brydlesau Uniongyrchol'. Y nod yw sicrhau bod aelwydydd digartref yn gallu cael mynediad at 50% o bob dyraniad tai cymdeithasol.

Mae'r tabl isod yn dangos bod aelwydydd digartref wedi cael 29% o'r prydlesau a oedd ar gael yn 2020/21 a 30% yn 2021/22. Mae'r math hwn o eiddo'n cael effaith ar y gyfran o brydlesau uniongyrchol y gellir eu gwneud i aelwydydd digartref, ac yn golygu nad yw nifer o'r llefydd gwag yn addas i fodloni eu hanghenion, er enghraifft llety gwarchod.

Crynodeb o'r dyraniadau yn ôl maint yr eiddo a'r math o eiddo:
Ffynhonnell: Data Un Llwybr Mynediad at Dai (ULlMaD)

| | 2020/21 | | | 2021/22 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm y prydlesi | Prydlesi uniongyrchol | % y prydlesi uniongyrchol | Cyfanswm y prydlesi | Prydlesi uniongyrchol | % y prydlesi uniongyrchol |
| **Fflat un ystafell wely**** | 127 | 43 | 34% | 104 | 31 | 30% |
| **Stiwdio/fflat un ystafell** | 8 | 7 | 88% | 7 | 3 | 43% |
| **Byngalo 1 ystafell wely*** | 25 | 3 | 12% | 24 | 3 | 13% |
| **Fflat 2 ystafell wely**** | 58 | 12 | 21% | 49 | 20 | 41% |
| **Byngalo 2 ystafell wely*** | 13 | 2 | 15% | 19 | 3 | 16% |
| **Byngalo 3 ystafell wely** | 2 | 0 | 0% | 1 | 0 | 1% |
| **Fflat 2 ystafell wely** | 1 | 0 | 0% | 1 | 1 | 100% |
| **Tŷ 1 ystafell wely** | 5 | 0 | 0% | 1 | 0 | 0% |
| **Tŷ 2 ystafell wely** | 26 | 9 | 35% | 16 | 7 | 44% |
| **Tŷ 3 ystafell wely** | 53 | 15 | 28% | 38 | 10 | 26% |
| **Fflat 3 ystafell wely**** | 1 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **Tŷ 4 ystafell wely** | 3 | 1 | 33% | 3 | 0 | 0% |
| **Tŷ 6 ystafell wely** | 2 | 0 | 0% | 0 | 0 | 0% |
| **Fflat 3 ystafell wely** | | | | 1 | 1 | 100% |
| **Cyfanswm** | **320** | **92** | **29%** | **264** | **79** | **30%** |

* Tai gwarchod yn bennaf
** Nid yw'n hysbys faint o'r fflatiau  un ystafell wely oedd ar gyfer pobl dros 55 oed

Disgwylir i'r dull prydlesau uniongyrchol gael ei adolygu gan mai dim ond am gyfnod dros dro y cafodd ei roi ar waith. Bydd asesiad yn cael ei gynnal o'r effaith mae wedi ei chael ar ymgeiswyr eraill ar y Gofrestr Tai, megis ymgeiswyr ym Mand 1 ac ymgeiswyr mewn Tai â Chymorth.

### *Tai Canolradd*

Mae 356 o unedau yn y stoc dai canolradd ar hyn o bryd. Mae'r stoc yn cynnwys 340 (96%) o eiddo anghenion cyffredinol ac 16 (4%) o unedau pobl hŷn. Mae lefelau rhent canolradd wedi'u gosod ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol neu 80% o gyfradd y farchnad yn yr ardal leol (p'run bynnag yw'r uchaf). Bydd ymgeiswyr tai canolradd yn cael eu derbyn ar y gofrestr tai canolradd Tai Teg os yw eu hincwm rhwng £16,000 a £45,000.

Mae bob un o'r tai cymdeithasol a thai canolradd yn bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru Llywodraeth Cymru, caiff stoc newydd ei ddatblygu i fodloni Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru.

### *Y Sector Rhentu Preifat*

Mae'r ffigurau a gyhoeddwyd yn Strategaeth Tai Lleol Conwy yn 2018 yn dangos bod 18% o aelwydydd yng Nghonwy'n rhentu'n breifat, mae'r ffigwr hwn yn uchel o'i gymharu ag 14% ar draws Cymru.

Gall y Sector Rhentu Preifat ddarparu hyblygrwydd i bobl sydd ag anghenion llety newidiol neu sydd angen symud tŷ yn aml am resymau gwaith ac ati. Fodd bynnag, mae gan y sector lefel is o ddiogelwch deiliadaeth statudol o'i gymharu â thai cymdeithasol, ac fe allai costau ymlaen llaw, megis blaendaliadau a rhent ymlaen llaw a meini prawf cymhwyso gan landlordiaid fod yn berthnasol, sy'n gallu achosi problemau i aelwydydd diamddiffyn neu incwm isel.

Caiff rhent sector preifat ei bennu gan y farchnad ac mae prisiau'n ddibynnol ar alw a chyflenwad. Pan fydd y galw'n uwch na'r cyflenwad, bydd darpar denantiaid yn fodlon talu rhent uchel er mwyn cael to uwch eu pennau gan fod yr opsiynau tai mor brin, ond mae'r sector bellach yn anfforddiadwy ar gyfer y mwyafrif o bobl sy'n cyflwyno ceisiadau digartref.

Mae'r siart isod yn darparu dadansoddiad o hysbysebion rhent preifat yn Sir Conwy rhwng mis Mai a mis Awst 2021:
Ffynhonnell: Sefydliad Bevan

Dadansoddiad o hysbysebion rhent preifat yn Sir Conwy, Mai - Awst 2021.
Ffynhonnell: Sefydliad Bevan, gan ddefnyddio data Rightmove a Spareroom.com

| Nifer y gwlâu | Nifer | Rhent wythnosol cyfartalog £ | Rhent wythnosol lleiaf | Eiddo sy'n uwch na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol | Eiddo sy'n is na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol | Diffyg wythnosol cyfartalog y Lwfans Tai Lleol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llety a rennir | 42 | 101.97 | 73.85 | 42 | 0 | £43.02 |
| 1 | 10 | 116.41 | 101.54 | 10 | 0 | £21.54 |
| 2 | 13 | 150.36 | 126.92 | 13 | 0 | £18.03 |
| 3 | 7 | 186.15 | 144.23 | 7 | 0 | £19.30 |
| 4 | 1 | - | 1,100.00 | 1 | 0 | £87.00 |

Mae'r uchod yn dangos nad oes eiddo ar y farchnad ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol neu is.

Diweddarodd Sefydliad Bevan y gwaith hwn ym mis Mai 2022 a nodwyd bod y sefyllfa'n gwaethygu yng Nghymru yn sgil diffyg argaeledd eiddo ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol neu is. Fodd bynnag, nodwyd dwy ystafell a rennir yng Nghonwy ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol.

Sefydlwyd asiantaeth gosod tai cymdeithasol, HAWS, yng Nghonwy i helpu teuluoedd incwm is i gael mynediad at y Sector Rhentu Preifat. Mae 44 eiddo ar y portffolio ar hyn o bryd, a gaiff eu prydlesu ar y gyfradd Lwfans Tai Lleol. Caiff llefydd gwag eu rhannu gyda Thîm Datrysiadau Tai Conwy, sy'n gallu cyflwyno cleientiaid gyda cheisiadau digartref fel enwebeion. Fodd bynnag, gall unrhyw aelwyd wneud cais, a'r landlord fydd yn dewis y tenant llwyddiannus.

*Eiddo Aneffeithiol*

Mae gan Gonwy gyfran uwch na’r cyfartaledd o eiddo preifat nad ydynt ar y farchnad dai preswyl ac nad ydynt ar gael ar gyfer deiliadaeth llawn amser. Mae cartrefi gwag, prydlesau gwyliau ac ail gartrefi’n cynrychioli stoc o frics a morter a allai, pe bai amodau economaidd, cynllunio neu bolisïau cynllunio treth leol yn newid, gyfrannu at y cyflenwad cyffredinol, a fyddai’n cael effaith ar brisiau eiddo ac argaeledd llety.

Ym mis Mawrth 2021, roedd gan Gonwy 1,485 eiddo a oedd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy. Mae dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd wedi bod yn ffocws ymdrech yng Nghonwy ers peth amser, ac wedi arwain at ddarparu 125 o gartrefi dros y 3 blynedd diwethaf, mae 18 o’r rhain (14%) ar gael ar gyfradd rhent fforddiadwy am o leiaf 5 mlynedd.

Mae perchnogion tai wedi manteisio ar y farchnad brydlesu tymor byr sydd wedi bod yn gryf iawn dros y blynyddoedd diwethaf. Ers 2017, mae 625 eiddo wedi symud tuag at ardrethi annomestig, ond mae’n bosibl y bydd rhagor o eiddo’n gymwys i wneud hynny eleni. Ym mis Mai 2022, nododd y tîm Treth Cyngor eu bod wedi derbyn cyfartaledd o 8 cais yr wythnos ers mis Ebrill 2022.

Yn 2018, awgrymodd ymchwil CBSC bod 900 llety gwyliau ‘eiddo cyfan’ yng Nghonwy. Ym mis Awst 2021, roedd 1,333 llety gwyliau tymor byr ‘eiddo cyfan’ yn weithredol yn ardal Sir Conwy ar ddau blatfform poblogaidd.

Ym mis Mawrth 2021, roedd 1,401 eiddo yn Sir Conwy’n ail dai.


## 2.2 Cyflwyniadau

Mae’r adran hon yn darparu data digartrefedd ar gyfer y cyfnod 2018/19 – 2021/22. Mae’n debygol y bydd y data ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf yn ddangosydd mwy manwl o anghenion digartrefedd o’i gymharu â’r cyfnod cyn hyn, gan fod y gofyniad i gynnal asesiad o angen blaenoriaethol wedi cael ei waredu ers mis Mawrth 2020. Darparwyd data cynharach er mwyn ystyried gwybodaeth ar dueddiadau.

### Demograffeg

Mae’r data demograffig mewn perthynas ag unigolion sy’n datgan eu bod yn ddigartref yn brin yn sgil cofnodion anghyflawn. Caiff rhywfaint o wybodaeth ei chofnodi ar gyfer y prif ymgeisydd sydd ynghlwm â phob cais yn y cam Adran 62. Er y caiff gwybodaeth ddemograffig arall ei chasglu, gan gynnwys mewn perthynas ag aelodau aelwydydd eraill, nid yw’n cael ei chofnodi mewn modd y gellir adrodd arno.

*Prif ymgeiswyr a aseswyd dan Adran 62 yn ôl grŵp/rhyw:*
Ffynhonnell: Stats Cymru a Datrysiadau Tai Conwy (DTC)




| | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | | 2020-21 | | 2021-22 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| Oed - 16-17 | 0 | 3 | 6 | 3 | 9 | 14 | 9 | 15 | 5 | 14 |
| Oed - 18-24 | 81 | 117 | 90 | 138 | 104 | 109 | 87 | 102 | 80 | 104 |
| 25 a throsodd | 381 | 384 | 417 | 429 | 369 | 392 | 429 | 360 | 382 | 346 |

### 2.2.2 Grwpiau penodol

**Digartrefedd Ieuenctid**

Er bod nifer y ceisiadau gan bobl ifanc dan 25 oed wedi gostwng, mae natur y dyletswyddau wedi newid, sydd wedi arwain at ragor o ddyletswydd i bobl ifanc, gan gynnwys darparu llety dros dro a sefydlog. Mae hyn yn cael effaith ar nifer y lletyau dros dro sydd eu hangen a'r amser a dreulir yno, yn ogystal â gofynion cefnogaeth.

Nifer y ceisiadau gan bobl ifanc (ymgeiswyr dan 25 oed):
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 16-17 oed | | | 18-24 oed | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Pob un | Gwryw | Benyw | Pob un |
| 2018/19 | 6 | 3 | **9** | 90 | 138 | **228** |
| 2019/20 | 9 | 14 | **23** | 104 | 109 | **213** |
| 2020/21 | 9 | 15 | **24** | 87 | 102 | **189** |
| 2021/22 | 5 | 14 | **19** | 80 | 104 | **184** |

**Cam-drin Domestig**

Mae perthnasau'n chwalu wedi bod yn un o'r prif resymau dros ddigartrefedd ers sawl blwyddyn (gweler 2.2.4). Yn 2021/22, roedd cynnydd yn nifer y bobl a oedd wedi profi camdriniaeth ddomestig ac mae dyletswyddau'n berthnasol iddynt dan Adran 73 a 75 lle bu i'r berthynas chwalu o ganlyniad i drais, a dan Adran 73 lle bu i'r berthynas chwalu mewn modd di-drais. Ychydig iawn o gyfleoedd sydd i atal digartrefedd yn yr amgylchiadau hyn, ac mae'n bosibl y bydd rhai aelwydydd yn ymofyn cefnogaeth estynedig.

Ceisiadau lle nodwyd mai'r rheswm dros ddigartrefedd oedd perthynas dreisgar yn chwalu:
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Adran 66 | 30 | 17 | 9 | 12 |
| Adran 73 | 93 | 70 | 69 | 89 |
| Adran 75 | 27 | 47 | 25 | 34 |

Ceisiadau lle nodwyd mai'r rheswm dros ddigartrefedd oedd perthynas yn chwalu mewn modd di-drais (mae hyn yn cynnwys mathau eraill o gamdriniaeth ddomestig):
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Adran 66 | 21 | 13 | 20 | 19 |
| Adran 73 | 81 | 83 | 76 | 96 |
| Adran 75 | 18 | 9 | 31 | 30 |

**Pobl sy'n gadael carchar:**

Nododd y Swyddog Atal Digartrefedd (Swyddog Cyswllt Carchar) bod staff y Gwasanaeth Prawf yn arfer cymeradwyo cyfeiriadau llety gydag aelodau teulu a ffrindiau wrth i unigolion gael eu rhyddhau o'r carchar. Fodd bynnag, gan fod y gofyniad i ystyried angen blaenoriaethol wedi'i waredu, mae bellach modd i'r unigolion hynny ddatgan eu bod yn ddigartref wrth iddynt gael eu rhyddhau, ac felly mae llai ohonynt yn

dewis byw gyda theulu/ffrindiau. Yn anffodus, mae'r grŵp hwn yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad at bob math o dai, sy'n gwneud pethau'n anodd o ran sicrhau llety er mwyn cyflawni'r ddyletswydd a75. Mae fforddiadwyedd yn her allweddol gan fod cyfraddau uchel iawn o ddiweithdra a dibyniaeth ar Gredyd Cynhwysol ymhlith pobl sy'n gadael carchar. I rai pobl, mae enwebiadau ar gyfer tai cymdeithasol yn aflwyddiannus yn sgil sensitifrwydd eu troseddau a'r goblygiadau risg posibl.

Rhwng mis Hydref 2020 a mis Ebrill 2022, cafodd 63 o bobl a oedd wedi gadael carchar fynediad at lety dros dro, cyfartaledd o 3.3 o bobl y mis. Yn sgil natur y troseddau a gyflawnwyd gan rai pobl, mae'n gallu bod yn anodd sicrhau rhai lleoliadau gan nad yw rhai perchnogion Gwely a Brecwast yn fodlon cynnig llety i bobl sy'n gadael carchar na rhoi preswylwyr presennol mewn perygl. Mae nifer o letyau dros dro a gaiff eu gosod wedi'u tan feddiannu gan y grŵp cleientiaid hwn er mwyn gallu darparu llety dros dro. Mae'n arbennig o heriol sicrhau lleoliadau diogel ar gyfer troseddwyr rhyw cofrestredig a phobl sydd wedi achosi tanau bwriadol.

Ceisiadau digartref gan bobl sy'n gadael carchar:
Ffynhonnell: a) Stats Cymru b) Cartrefi Conwy

| | 2018/19a | 2019/20b | 2020/21b | 2021/22b |
|---|---|---|---|---|
| **Adran 66** | * | 1 | 1 | 0 |
| **Adran 73** | 63 | 56 | 31 | 34 |
| **Adran 75** | 9 | 7 | 6 | 4 |

**Grwpiau lleiafrifol**

Ychydig iawn o ddata sydd ar gael mewn perthynas â grwpiau lleiafrifol. Nid yw'r gwaith o gasglu data cydraddoldeb wedi cael ei gwblhau yn sgil pwysau gwaith. Mae'r data a gasglwyd mewn perthynas â hyn yn berthnasol i'r prif ymgeisydd yn unig.

**Cyn-filwyr a chenedlaetholwyr yr UE**

Nid oes gennym ddata ar wahân ar gael ar y grwpiau hyn.

**NRPF**

Nodwyd 12 o ymgeiswyr yn y data misol a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru rhwng mis Awst 2020 a mis Ebrill 2022.

**Gwybodaeth am bobl sy'n cysgu allan**

Drwy'r dull 'pawb i mewn' ers dyddiau cynnar y pandemig, mae pawb a oedd yn cysgu allan neu mewn perygl o gysgu allan wedi cael eu lletya, gan eithrio un unigolyn sydd wedi bod yn cysgu allan ers blynyddoedd. Mae'r unigolyn wedi cael cynnig llety ar sawl achlysur ac mae llety ar gael ar eu cyfer pe dymunent, ond ar hyn o bryd, maent yn dymuno cysgu allan.

Nifer y bobl sy'n cysgu allan
Ffynhonnell: a) ymarfer cyfrif cysgu allan amcangyfrifedig b) adroddiadau misol gan CBSC i Lywodraeth Cymru

| | Nifer |
|---|---|
| **2018/19a** | 10 |
| **2019/20a** | 21 |
| **2020/21b** | 1 |
| **2021/22b** | 1 |

### 2.2.3 Canlyniadau ceisiadau digartref

Canlyniad y ceisiadau a aseswyd:
Ffynonellau: Stats Cymru; *Dangosyddion Perfformiad Gwasanaeth

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau am wasanaeth* | 1,169 | 1,350 | 1,272 | 1,233 |
| Cyfanswm yr asesiadau Adran 62 | 868 | 997 | 1,018 | 931 |
| Cyfanswm y canlyniadau | 1,089 | 1,149 | 1,002 | 1,061 |
| – sy'n ymgeiswyr sengl | 615 | 657 | 642 | 679 |
| Ddim yn ddigartref nac mewn perygl o fod yn ddigartref | 30 | 51 | 87 | 114 |
| Anghymwys* | 3 | 3 | 0 | 4** |
| Adran 66 - mewn perygl o fod yn ddigartref | 312 | 327 | 240 | 237 |
| – sy'n ymgeiswyr sengl | 114 | 126 | 111 | 109 |
| Adran 73 - digartref | 534 | 549 | 525 | 503 |
| – sy'n ymgeiswyr sengl | 354 | 381 | 381 | 366 |
| Adran 75 - dyletswydd tai llawn | 114 | 138 | 132 | 198 |
| – sy'n ymgeiswyr sengl | 54 | 48 | 78 | 131 |

Sylwch: Mae'r rheiny nad ydynt yn gymwys fel arfer yn bobl sydd wedi dychwelyd o dramor ac wedi methu'r prawf preswyliad arferol.

Nid oes cynnydd wedi bod yn nifer y ceisiadau digartref yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r nifer hwn wedi gostwng o'i gymharu â'r nifer a dderbyniwyd yn 2019/20. Fodd bynnag, mae natur y dyletswyddau wedi newid yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda rhagor o aelwydydd yn cyrraedd Adran 73 ac angen llety dros dro yn hytrach na chymorth yn unig i helpu i sicrhau llety. Mae hyn yn sgil gwaredu'r asesiad o angen blaenoriaethol. Mae nifer y bobl y mae dyletswydd iddynt dan Adran 75 wedi cynyddu yn y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad, yn arbennig yn 2021/22. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y defnydd o lety dros dro.

Mae gwahaniaeth nodedig rhwng nifer y ceisiadau gwasanaeth a nifer y canlyniadau Adran 62 bob blwyddyn. Mae'n debygol y bydd nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys nad oes angen cymorth mwyach yn ogystal â methiant i gysylltu â'r ymgeisydd. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth fanwl ar gael am y rhesymau.

Mae'r tabl uchod yn amlygu'r canlyniadau ym mhob blwyddyn; mae hyn yn dangos nifer y dyletswyddau a gyflawnwyd dan adran 75, h.y. yr aelwydydd hynny a adawodd y gwasanaeth ar y cam hwn bob blwyddyn. Fodd bynnag, er mwyn deall gofynion y gwasanaeth digartrefedd yn llawn, mae hefyd angen ystyried nifer y dyletswyddau Adran 75 a gaiff eu derbyn bob blwyddyn. Mae'r rhain wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan arwain at angen cynyddol am lety dros dro a rhagor o alw am lety sefydlog. Nid yw'r cyflenwad llety sefydlog wedi cynyddu'n gymesur â'r galw cynyddol, ac mae'r llefydd tai cymdeithasol gwag wedi gostwng yn y cyfnod hwn.

Nifer y dyletswyddau Adran 75 a dderbynnir:
Ffynhonnell: Cartrefi Conwy

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer | 136 | 128 | 180 | 263 |

### 2.2.4 Achosion Digartrefedd

Mae cyfran uchel o achosion o unigolion digartref gan eu bod wedi colli eu llety rhent. Ceir amrywiaeth o resymau dros hyn, fodd bynnag, mae landlordiaid yn aml yn defnyddio rhybuddion Adran 21 i derfynu

tenantiaeth, gan mai dyma'r ffordd gyflymaf o adennill meddiant. Pan fydd ymgeisydd wedi derbyn Rhybudd Adran 21 cymwys, cysylltir â landlordiaid i weld a oes unrhyw waith ataliol y gelir ei gwblhau er mwyn galluogi'r tenant i aros. Yn aml iawn, yn ystod y trafodaethau hyn, darperir gwybodaeth ychwanegol am yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gyflwyno'r rhybudd. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi mewn modd y gellir cael mynediad ati drwy fecanwaith adrodd.

Mae perthynas yn chwalu hefyd yn un o brif achosion digartrefedd. Yn yr un modd, cwblheir gwaith ataliol lle bo hynny'n briodol.

Mae'r tri phrif achos o ddigartrefedd wedi aros yn gyson bob blwyddyn o ran bob dyletswydd dros y pedair blynedd diwethaf.

*Y tri phrif achos o ddigartrefedd fesul dyletswydd:*
Ffynhonnell: Stats Cymru

| Dyddiad | Achos | Dyletswydd atal Adran 66 | Dyletswydd lliniaru Adran 73 | Dyletswydd lawn Adran 75 |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | Colli llety clwm neu lety wedi'i rentu | 144 | 99 | 24 |
| | Perthynas yn chwalu | 51 | 174 | 42 |
| | Ôl-ddyledion rhent | 42 | - | - |
| | Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim yn gallu cynnig llety bellach | 0 | 75 | 18 |
| | Cyfanswm yr aelwydydd digartref | 312 | 534 | 114 |
| 2019/20 | Colli llety clwm neu lety wedi'i rentu | 142 | 95 | 31 |
| | Perthynas yn chwalu | - | 153 | 56 |
| | Ôl-ddyledion rhent | 49 | - | - |
| | Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim yn gallu cynnig llety bellach | 37 | 125 | 13 |
| | Cyfanswm yr aelwydydd digartref | 327 | 548 | 138 |
| 2020/21 | Colli llety clwm neu lety wedi'i rentu | 79 | - | 23 |
| | Perthynas yn chwalu | - | 145 | 39 |
| | Ôl-ddyledion rhent | 33 | - | 0 |
| | Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim yn gallu cynnig llety bellach | 48 | 166 | 31 |
| | Arall (gan gynnwys argyfwng, dychwelyd o dramor, cysgu allan) | - | 54 | - |
| | Cyfanswm yr aelwydydd digartref | 241 | 523 | 132 |
| 2021/22 | Colli llety clwm neu lety wedi'i rentu | 92 | 48 | 26 |
| | Perthynas yn chwalu | 31 | 185 | 64 |
| | Perthnasau eraill neu ffrindiau ddim yn gallu cynnig llety bellach | 40 | 146 | 50 |
| | Cyfanswm yr aelwydydd digartref | 237 | 503 | 198 |

Darperir crynodeb manwl o'r wybodaeth ddemograffig a deiliadaeth llety aelwydydd cyn iddynt ddatgan eu bod yn ddigartref yn Atodiad 1.

### 2.2.5 Cyfraddau pobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref fwy nag unwaith

Nid yw gwybodaeth mewn perthynas â phobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref fwy nag unwaith yn hawdd ei chael, ac felly dim ond unwaith y flwyddyn y darperir y wybodaeth hon. Mae'r mwyafrif o bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref fwy nag unwaith yn sengl, a'r mwyafrif ohonynt yn ddynion.

Mae gwybodaeth gan swyddogion atal digartrefedd yn awgrymu y dylid defnyddio llety dros dro fel opsiwn tai ar gyfer rhai pobl rhwng perthnasoedd a digwyddiadau bywyd eraill. Mae angen ymgymryd â rhagor o

waith er mwyn deall y rhesymau pam fod pobl yn cyflwyno'u hunain yn ddigartref fwy nag unwaith, er mwyn gallu mynd i'r afael â hwy a gweithio tuag at sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin, byr ac na chaiff ei ailadrodd.

*Nifer yr ymgeiswyr sydd wedi gwneud mwy nag un cais digartref fesul y math o aelwyd (2020/21)*
Ffynhonnell: Cartrefi Conwy

| | Nifer y ceisiadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7+ | CYFANSWM |
| **Cwpwl** | 15 | 2 | 3 | 0 | 1 | 0 | **21** |
| **Cwpwl gyda phlant** | 14 | 7 | 0 | 0 | 0 | 0 | **21** |
| **Rhiant sengl gwrywaidd** | 9 | 4 | 3 | 0 | 0 | 0 | **16** |
| **Rhiant sengl benywaidd** | 45 | 19 | 7 | 1 | 1 | 0 | **73** |
| **Y nifer ohonynt sydd â phlant** | 68 | 30 | 10 | 1 | 1 | 0 | **110** |
| **Benyw sengl** | 51 | 16 | 10 | 5 | 1 | 0 | **83** |
| **Gwryw sengl** | 110 | 55 | 22 | 14 | 1 | 7 | **209** |
| **CYFANSWM** | **244** | **103** | **45** | **20** | **4** | **7** | **423** |

### 2.2.6 Defnyddio llety dros dro

Mae'r defnydd o lety dros dro wedi cynyddu'n sylweddol yn 2020/21 wrth i ragor o aelwydydd ddod yn gymwys am ddarpariaeth llety dros dro yn sgil gwaredu'r prawf angen blaenoriaethol, a gafodd ei gymell gan y pandemig. Mae hyn y golygu fod dyletswydd bellach yn ddyledus i nifer o bobl sengl ac mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y bobl sengl sy'n byw mewn llety dros dro. Defnyddiwyd lleoliadau gwely a brecwast ychwanegol i fodloni'r galw. Bydd y ddyletswydd ailgartrefu llawn yn ddyledus i'r mwyafrif o bobl a gan fod tai fforddiadwy'n brin iawn, maent yn wynebu cyfnodau hir posibl mewn llety dros dro.

*Aelwydydd mewn llety dros dro ar 31 Mawrth bob blwyddyn:*
Ffynhonnell: Adran Gyllid Conwy

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Pob math o lety dros dro** | 144 | 144 | 258 | 279 |
| **- y nifer ohonynt sy'n deuluoedd â phlant** | 78 | 75 | 72 | 89 |
| **Mewn llety gwely a brecwast** | 39 | 36 | 135 | 128 |
| **- y nifer ohonynt sy'n deuluoedd â phlant** | 9 | 9 | 12 | 19 |

*Nifer yr aelwydydd newydd a symudodd i lety brys fesul blwyddyn:*
Ffynhonnell: Adran Gyllid Conwy


| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr aelwydydd** | 221 | 237 | 518 | 458 |
| **- y nifer ohonynt sydd â phlant** | 62 | 69 | 67 | 76 |

Er mwyn deall y galw am lety dros dro, mae'n rhaid ystyried pob aelwyd sy'n ymofyn llety dros dro.

*Cyfanswm yr aelwydydd sydd wedi'u lleoli mewn pob math o lety dros dro:*

| Blwyddyn | Cyfanswm yr aelwydydd | - y nifer ohonynt sydd â phlant |
|---|---|---|
| **2018/19** | 407 | 172 |
| **2019/20** | 435 | 110 |
| **2020/21** | 721 | 166 |
| **2021/22** | 756 | 160 |


Mae'r graff isod yn dangos llif y bobl sy'n mynd i mewn ac allan o lety dros dro, ac yn dangos bod nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro'n cynyddu:




| | Awst 2020 | Medi 2020 | Hydref 2020 | Tachwedd 2020 | Rhagfyr 2020 | Ionawr 2021 | Chwefror 2021 | Mawrth 2021 | Ebrill 2021 | Mai 2021 | Mehefin 2021 | Gorffennaf 2021 | Awst 2021 | Medi 2021 | Hydref 2021 | Tachwedd 2021 | Rhagfyr 2021 | Ionawr 2022 | Chwefror 2022 | Mawrth 2022 | Ebrill 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm allan | 64 | 54 | 61 | 62 | 67 | 78 | 57 | 130 | 29 | 64 | 63 | 77 | 59 | 62 | 38 | 74 | 90 | 57 | 66 | 46 | 60 |
| Cyfanswm mewn llety dros dro | 439 | 444 | 464 | 503 | 496 | 508 | 521 | 530 | 561 | 556 | 542 | 545 | 553 | 572 | 549 | 548 | 530 | 547 | 565 | 590 | 592 |
| Cyfanswm I mewn | 42 | 50 | 67 | 59 | 41 | 71 | 83 | 55 | 69 | 51 | 39 | 68 | 39 | 68 | 45 | 45 | 56 | 74 | 76 | 62 | 58 |

Ffynhonnell: Data misol y DTC i Lywodraeth Cymru

Mae'r diagram isod yn dangos cyfanswm y bobl mewn llety dros dro yn ôl y math o lety. Llety sector preifat (hunangynhwysol a gaiff ei brydlesu a'i reoli gan yr awdurdod) yw'r math o lety dros dro sy'n darparu ar gyfer y mwyafrif o bobl, yn amrywio o 290 i 332 o breswylwyr. Mae niferoedd Gwely a Brecwast wedi dyblu o 96 i 230 o unigolion. Mae merched sy'n byw mewn llochesi wedi cynyddu yn sgil cynnydd mewn camdriniaeth ddomestig yn ystod y pandemig.




Ffynhonnell: Data misol y DTC i Lywodraeth Cymru

### 2.2.7 Canlyniadau Atal

Mae'r canlyniadau atal ar gyfer bob dyletswydd wedi cael eu hadolygu.

*Adran 66 - cymwys, dan fygythiad o fod yn ddigartref, cymorth atal a ddarperir:*
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 312 | 327 | 240 | 237 |
| **Llwyddiannus** | | | | |
| **Nifer** | 219 | 234 | 186 | 143 |
| **%** | 70.2% | 71.6% | 77.5% | 60.3% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfartaledd Cymru** | 68% | 67% | 65% | Amherthnasol |
| **Aflwyddiannus** | | | | |
| **Nifer** | 57 | 48 | 30 | 54 |
| **%** | 18.3% | 14.7% | 12.5% | 22.8% |
| **Niwtral** | | | | |
| **Nifer** | 39 | 42 | 24 | 40 |
| **%** | 12.5% | 12.8% | 10.0% | 16.9% |

*Adran 73 - Cymwys, digartref, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i helpu i sicrhau llety:*
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 534 | 549 | 522 | 503 |
| **Llwyddiannus** | | | | |
| **Nifer** | 219 | 258 | 258 | 169 |
| **%** | 41.0% | 47.0% | 49.4% | 33.6% |
| **Cyfartaledd Cymru** | 41% | 41% | 39% | Amherthnasol |
| **Aflwyddiannus** | | | | |
| **Nifer** | 225 | 207 | 192 | 242 |
| **%** | 42.1% | 37.7% | 36.8% | 48.1% |
| **Niwtral** | | | | |
| **Nifer** | 90 | 84 | 75 | 92 |
| **%** | 16.9% | 15.3% | 14.4% | 18.3% |

*Adran 65 - Cymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac yn flaenoriaeth (nid oes asesiad o angen blaenoriaethol wedi cael ei gwblhau ers diwedd Mawrth 2020 yn sgil y pandemig):*
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 114 | 138 | 132 | 198 |
| **Llwyddiannus** | | | | |
| **Nifer** | 84 | 102 | 108 | 133 |
| **%** | 73.7% | 73.9% | 81.8% | 67.2% |
| **Aflwyddiannus** | | | | |
| **Nifer** | 27 | 36 | 24 | 65 |
| **%** | 23.7% | 26.1% | 18.2% | 32.8% |

Mae perfformiad Adran 66 wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2018/19, 2019/20 a 2020/21. Nid yw'r wybodaeth am berfformiad cyfartalog Cymru ar gyfer 2021/22 ar gael eto.

Mae perfformiad Adran 73 yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru ar gyfer 2018/19, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2019/20 a 2020/21.  Nid yw'r wybodaeth am berfformiad cyfartalog Cymru ar gyfer 2021/22 ar gael eto.

Gwellodd perfformiad gweithgarwch atal a lliniaru yn 2020/21 o'i gymharu â'r flwyddyn gynt, ond yn 2021/22, gostyngodd cyfraddau gweithgarwch llwyddiannus i'w lefel isaf mewn dros pedair blynedd, gan

ostwng yn is na lefelau 2018/19. Mae'n debyg mai diffyg mynediad at lety Sector Rhentu Preifat fforddiadwy yw'r ffactor mwyaf yn y dirywiad mewn perfformiad.

Darperir crynodeb manwl o ddeiliadaeth ar adeg cyflawni dyletswydd yn Atodiad 1.

### 2.2.7 Rhesymau dros ganlyniadau aflwyddiannus

Mae'r rhesymau dros ataliaeth aflwyddiannus wedi cael eu hadolygu.

*Rhesymau dros gymorth atal aflwyddiannus (Adran 66):*
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Gwrthodwyd cymorth | * | 3 | 3 | 2 |
| Diffyg cydweithredu | 3 | * | * | 1 |
| Tynnu'r cais yn ôl | 9 | 9 | 6 | 13 |
| Colli cysylltiad | 24 | 30 | 15 | 24 |
| Rhesymau eraill | 3 | * | * | 0 |
| Cyfanswm | 39 | 42 | 24 | 40 |

*Rhesymau dros gymorth atal aflwyddiannus (Adran 73):*
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Gwrthodwyd cymorth | 3 | 6 | 3 | 1 |
| Diffyg cydweithredu | 6 | 9 | * | 2 |
| Tynnu'r cais yn ôl | 18 | 30 | 33 | 51 |
| Colli cysylltiad | 63 | 36 | 39 | 37 |
| Rhesymau eraill | * | 3 | * | 1 |
| Cyfanswm | 90 | 84 | 75 | 92 |

*Rhesymau dros fethiant i gyflawni dyletswydd (Adran 75):*
Ffynhonnell: Stats Cymru

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Gwrthodwyd cymorth | 9 | 9 | 9 | 10 |
| Diffyg cydweithredu | * | 6 | * | 3 |
| Tynnu'r cais yn ôl | * | 3 | 6 | 12 |
| Colli cysylltiad | 6 | 3 | 3 | 12 |
| Rhesymau eraill | 12 | 15 | 6 | 28 |
| Cyfanswm | 27 | 36 | 24 | 65 |

Nid yw nifer sylweddol o ymgeiswyr yn sicrhau canlyniad cadarnhaol i'w cais. Colli cysylltiad yn Adrannau 66 a 73 yw'r categori â'r nifer uchaf o geisiadau, ac mae nifer y bobl sy'n tynnu eu cais yn ôl, yn arbennig yn Adran 73, yn uchel iawn. Byddai dealltwriaeth bellach o'r canlyniadau hyn yn ddefnyddiol i sicrhau bod y gwasanaeth digartrefedd yn gweithio i fynd i'r afael ag achosion o gyflwyno ceisiadau fwy nag unwaith.

Mae'r ffigwr ar gyfer ceisiadau lle na lwyddwyd i gyflawni pob dyletswydd yn llawer uwch yn 2021/22 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. 2018/19 oedd y flwyddyn olaf i Stats Cymru gasglu rhagor o fanylion ynghylch canlyniadau Adran 75, ond mae'r wybodaeth hon ar gael yn ein cofnodion.

*Rhesymau dros gyflawni dyletswydd o dan adran 75:*
Ffynhonnell: a) Stats Cymru b) DTC

| | 2018/19a | 2019/20b | 2020/21b | 2021/22b |
|---|---|---|---|---|
| **Ddim yn gymwys mwyach** | * | 0 | 1 | 0 |
| **Tynnu'r cais yn ôl*** | 9 | 7 | 10 | 24 |
| **Camgymryd ffaith** | * | 0 | 0 | 0 |
| **Dod yn ddigartref o lety a ddarperir o dan adran 75 yn fwriadol** | 3 | 9 | 2 | 11 |
| **Derbyn cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu (rhan VI Deddf Tai 1996)** | 54 | 65 | 54 | 85 |
| **Derbyn cynnig yn y sector rhentu preifat** | 33 | 36 | 54 | 48 |
| **Gorffen byw yn llety ar gael o dan adran 75 yn wirfoddol** | 6 | 7 | 2 | 17 |
| **Gwrthod cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu (Rhan VI Deddf Tai 1996)** | * | 4 | 6 | 6 |
| **Gwrthod cynnig o lety addas yn y Sector Rhentu Preifat** | * | 1 | 0 | 1 |
| **Gwrthod cynnig o lety dros dro addas o dan adran 75** | 9 | 4 | 2 | 3 |
| **Gwrthod cydweithredu** | * | 5 | 1 | 3 |
| **Cyfanswm** | 114 | 138 | 132 | 198 |

* Nid yw'r rhesymau dros dynnu'r cais yn ôl yn hysbys, ond efallai nad oes modd cyflawni'r ddyletswydd i ymgeiswyr sy'n symud i Dai â Chymorth drwy'r math hwn o lety ac felly mae'n bosibl y byddant yn tynnu eu cais yn ôl.

Mae cynnydd wedi bod yn 2021/22 yn nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref o lety dros dro'n fwriadol, ac yn nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i fyw yn y llety'n wirfoddol. Mae hyn yn achos pryder, gan y bydd ymgeiswyr o bosibl yn gwneud cais digartref arall yn y dyfodol, fodd bynnag, nid ydym yn gwybod faint o'r aelwydydd hyn sy'n gadael i fyw mewn tai sefydlog.

### 2.2.8 Cysylltiad Lleol

Nid yw gwybodaeth mewn perthynas ag atgyfeiriadau cysylltiad lleol yn hawdd ei chael. Ni allwn adrodd ar ganlyniad yr atgyfeiriadau rydym wedi'u gwneud at awdurdod arall, na nifer yr atgyfeiriadau mae Conwy wedi'u derbyn gan awdurdodau lleol eraill.

*Atgyfeiriadau cysylltiad lleol Adran 80 at awdurdod arall:*
Ffynhonnell: Cartrefi Conwy

| | Nifer |
|---|---|
| 2018/19 | 1 |
| 2019/20 | 2 |
| 2020/21 | 10 |
| 2021/22 | 10 |

### 2.2.9 Gwybodaeth am hyd lleiaf, mwyaf a chyfartalog achosion

Nodwyd rhai materion mewn perthynas â chysondeb data sydd angen eu harchwilio ymhellach yn ystod y broses o gasglu'r data hwn.

### 2.2.10 Hyd yr arhosiad cyfartalog mewn llety dros dro

Wrth i'r galw am lety dros dro gynyddu, nid oes cynnydd cyfatebol wedi bod yn nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael. Er bod mynediad at dai cymdeithasol wedi cynyddu, mae mynediad at lety Sector Rhentu Preifat fforddiadwy wedi lleihau ac mae cynnydd wedi bod yn hyd y cyfnod mae aelwydydd yn ei dreulio mewn llety dros dro yn aros i lety priodol, sefydlog a fforddiadwy ddod ar gael.


*Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd aelwydydd digartref ym mhob math o lety dros dro:*
Ffynhonnell: Cartrefi Conwy

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Pob aelwyd - pob math o lety** | 213 | 231 | 158 | 224 |
| **Llety gwely a brecwast** | | | | |
| **Aelwydydd unigolyn sengl** | 62 | 50 | 76 | 117 |
| **Aelwydydd gyda phlant** | 66 | 72 | 76 | 89 |
| **Llety dros dro wedi'i brydlesu** | | | | |
| **Aelwydydd unigolyn sengl** | 458 | 566 | 462 | 513 |
| **Aelwydydd gyda phlant** | 452 | 568 | 709 | 737 |

Darperir crynodeb manwl ar gyfer grwpiau penodol yn Atodiad 1.

### 2.2.11 Llety (cyn ac ar ôl) cyflwyno'n ddigartref

*Deiliadaeth llety cyn cyflwyno'n ddigartref:*





| | Hydref 2020 | Tachwedd 2020 | Rhagfyr 2020 | Ionawr 2021 | Chwefror 2021 | Mawrth 2021 | Ebrill 2021 | Mai 2021 | Mehefin 2021 | Gorffennaf 2021 | Awst 2021 | Medi 2021 | Hydref 2021 | Tachwedd 2021 | Rhagfyr 2021 | Ionawr 2022 | Chwefror 2022 | Mawrth 2022 | Ebrill 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Symud oddi ar y stryd | 9 | 4 | 4 | 7 | 3 | 3 | 1 | 3 | 2 | 9 | 2 | 9 | 2 | 2 | 3 | 4 | 3 | 1 | 5 |
| Syrffio soffas yn flaenorol | 15 | 13 | 11 | 20 | 25 | 13 | 12 | 13 | 12 | 14 | 12 | 14 | 13 | 13 | 7 | 19 | 26 | 9 | 5 |
| Symud o lety anaddas arall | 22 | 17 | 14 | 18 | 28 | 21 | 40 | 20 | 13 | 27 | 13 | 27 | 11 | 11 | 17 | 31 | 20 | 22 | 10 |
| Pobl sy'n gadael carchar | 2 | 2 | 5 | 9 | 6 | 3 | 2 | 1 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 6 | 0 | 5 | 6 | 4 |
| Arall | 19 | 23 | 7 | 17 | 21 | 15 | 14 | 14 | 10 | 16 | 10 | 16 | 17 | 17 | 23 | 20 | 22 | 24 | 34 |

Ffynhonnell: Data misol i Lywodraeth Cymru

**Deiliadaeth ar adeg cyflawni dyletswydd**

Mae lleihad sylweddol wedi bod mewn mynediad at eiddo'r Sector Rhentu Preifat dros y tair blynedd a ddengys isod, a chynnydd llai mewn mynediad at dai cymdeithasol. Gostyngodd argaeledd Tai â Chymorth yn sylweddol yn 2021/22, sydd fwy na thebyg o ganlyniad i ddiffyg llety symud ymlaen fforddiadwy, o bosibl yn sgil y dull prydlesau uniongyrchol, ynghyd â llai o ddyraniadau. Ni ystyrir opsiynau tai canolradd fel llety priodol i alluogi dyletswyddau i gael eu cyflawni.




| | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Tai cymdeithasol | 113 | 131 | 139 |
| Tai preifat | 267 | 196 | 120 |
| Tai â chymorth | 78 | 85 | 42 |
| Trwydded â pherthnasau neu ffrindiau | 36 | 58 | 37 |
| Tai canolradd | 0 | 0 | 3 |
| Arall | 8 | 7 | 5 |
| Aflwyddiannus ar A75 | 37 | 24 | 65 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

Mae nifer sylweddol o aelwydydd yn gadael y gwasanaeth digartrefedd heb ganlyniad cadarnhaol. Mae'r nifer hwn wedi cynyddu'n sylweddol yn 2021/22. Mae angen rhagor o waith i ddeall pam fod hyn yn digwydd a ph'un a yw pobl yn parhau i fod ag angen tai.

## 2.3 Asesiad y Farchnad Dai Leol

Er mwyn deall pa fath o dai fforddiadwy sydd eu hangen a ble, mae'n bwysig sicrhau bod Asesiad gyfredol o'r Farchnad Dai Leol ar waith. Ym mis Chwefror 2022, cymeradwywyd Asesiad dros dro o'r Farchnad Dai Leol yng Nghonwy. Paratowyd yr asesiad dros dro yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, 'Canllaw Asesu'r Farchnad Dai Leol (2006)' a'r canllawiau atodol, 'Cychwyn Llunio eich Asesiad Marchnad Dai Leol (2014)'. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ym mis Ebrill 2022 ac amserlen i bob awdurdod lleol yng Nghymru ei chwblhau ar gyfer eu Hasesiad o'r Farchnad Dai Leol, yn unol â'r argymhelliad a amlinellir yn yr adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy yng Nghymru 2019. Bydd Asesiad dros dro Conwy o'r Farchnad Dai Lleol yn cael ei ddiweddaru'n unol â hynny.

Mae'r Asesiad dros dro o'r Farchnad Dai Leol wedi nodi angen i gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy o 229 uned y flwyddyn dros y 5 mlynedd nesaf.

Yn ogystal â'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, cyhoeddodd Conwy ei Brosbectws Awdurdod Lleol cyntaf, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, ym mis Awst 2021. Nodwyd y bylchau canlynol yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Prosbectws, ac fe'u hystyrir fel blaenoriaethau datblygu tai strategol dros y 12 mis nesaf:

- Llety 1 ystafell wely anghenion cyffredinol a llety mwy mewn trefi arfordirol (4, 5, 6, 7 ac 8 gwely) gan gynnwys datrysiadau arloesol megis podiau, caffael ac ailwampio anheddau presennol, addasu adeiladau a/neu dai a rennir
- Byngalo/eiddo llawr gwaelod 2 ystafell wely wedi'u haddasu mewn trefi arfordirol, lle bo hynny'n briodol (h.y. mae'r tir yn addas a'r eiddo'n bodloni anghenion mynediad)
- Datblygiad sy'n cefnogi mentrau sicrhau'r maint cywir (rightsizing) a symudedd o fewn y stoc dai bresennol
- Datblygiadau cynaliadwy (h.y. maint a deiliadaeth cymysg), bydd disgwyl i ystyriaeth gael ei roi er mwyn sicrhau bod canran uchel o dai cymdeithasol ar gael
- Datblygu cynlluniau tai cymdeithasol i grwpiau penodol. Nodwyd y canlynol fel meysydd blaenoriaeth o fewn y 12 mis nesaf.
  Lleol
  - Unedau hunangynhwysol ar gyfer cyn-droseddwyr, dioddefwyr camdriniaeth domestig a phobl sy'n dioddef â'u hiechyd meddwl.

Rhanbarthol:

- Uned wasgaredig LGBTQ+
- Uned wasgaredig neu loches ar gyfer dynion sydd wedi goroesi camdriniaeth ddomestig

Caiff blaenoriaethau datblygu eu hadolygu bob blwyddyn.

## 2.4 Casgliad

Mae pwysau tai sylweddol wedi bod yng Nghonwy ers peth amser, ac mae'r pandemig wedi gwaethygu hynny. Mae cyfanswm y ceisiadau digartref wedi gostwng yn y ddwy flynedd ddiwethaf ers 2019/20, ond mae newid wedi bod yn y dyletswyddau i ymgeiswyr, gyda rhagor o aelwydydd yn ymofyn llety dros dro a dyletswydd ailgartrefu Adran 75. Yn ystod y cyfnod hwn, mae mynediad at y sector preifat wedi lleihau, yn sgil diffyg fforddiadwyedd a rhai eiddo'n gadael y farchnad, gan gynyddu'r ddibyniaeth ar dai cymdeithasol, sydd â galw uchel iawn. Mae hyn yn golygu bod aelwydydd yn treulio cyfnodau hir mewn llety dros dro.

Disgwylir bod y gwaethaf i ddod o ran ceisiadau digartrefedd, gan fod nifer y lleoliadau llety dros dro wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf. Yn sgil gwaredu'u prawf angen blaenoriaethol, mae'n debygol y bydd nifer sylweddol o geisiadau'n parhau i gael eu cyflwyno gan unigolion sengl. Mae'r rheiny dan 35 yn wynebu heriau sylweddol mewn perthynas â diffyg tai fforddiadwy ac yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir yn sgil prinder difrifol o lety sefydlog priodol.

Mae nifer o unigolion sengl yn dod yn ddigartref ar ôl byw mewn llety lle nad oes ganddynt unrhyw hawliau cyfreithiol, ac felly ychydig iawn o gwmpas sydd a gyfer gwaith ataliol. Mae perthnasau'n chwalu a cholli llety rhent wedi bod yn ddau reswm cyffredin iawn dros ddigartrefedd ers peth amser, ac mae disgwyl i hynny barhau.

Mae nifer o ffactorau allanol sy'n debygol o roi pwysau pellach ar y gwasanaeth digartref, gellir dod o hyd i ragor o fanylion ar hyn yn adran 5.

Mae'n anodd rhagweld goblygiadau hirdymor Covid-19. Mae'n anodd rhagweld y dyfodol, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar bobl sydd angen cymorth digartrefedd.

## 3.0 Asesu anghenion cymorth

Mae'r adran hon o'r Cynllun yn darparu gwybodaeth i gael dealltwriaeth well o anghenion pobl sy'n ymofyn cymorth.

## 3.1 Cyd-destun

Cwblhawyd asesiad o anghenion cymorth aelwydydd sy'n ddigartref ar hyn o bryd ym mis Ebrill/Mai 2022, gan ddefnyddio'r pedwar categori grwpiau cymorth a'r pum categori gofynion cymorth a ddarparwyd yn y Canllawiau Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym (Hydref 2021). Cwblhawyd yr asesiad gan y Tîm Grant Cymorth Tai gan ddefnyddio dogfennau gan y tîm Datrysiadau Tai.

Ym mis Mehefin 2020, cwblhawyd ymarfer tebyg iawn, gan ddefnyddio'r paramedrau yng nghanllawiau Cam 2, ac mae rhai o'r canlyniadau wedi'u nodi isod at ddibenion cymharu.

Mae'r asesiad a gwblhawyd ym mis Ebrill/Mai 2022 yn cynnwys pob aelwyd ym mhob math o lety dros dro. Dim ond anghenion cymorth yr aelwydydd hynny a oedd yn byw mewn llety brys a ystyriwyd yn yr asesiad a gwblhawyd ym mis Mehefin 2020.

*Math o lety dros dro:*

| Math o Lety | Cyfanswm 2022 | Cyfanswm 2020 |
|---|---|---|
| **Llety Gwely a Brecwast / Gwesty** | 119 | 55 |
| **Cabanau** | 0 | 6 |
| **Carafán** | 2 | 12 |
| **Gwely brys mewn Prosiect GCT** | 2 | 0 |
| **Tu allan i'r Sir** | 20 | 18 |
| **Hunangynhwysol** | 7 | 22 |
| **Tŷ a rennir** | 8 | 0 |
| **Eiddo prydles** | 107 | Amherthnasol |
| **Cyfanswm** | **265** | **113** |

## 3.2 Niferoedd

*Mae'r siart isod yn dangos canlyniad yr asesiad o anghenion cymorth o 265 o aelwydydd a gynhaliwyd ym mis Ebrill/Mai 2022*:

| Grŵp Cymorth | Opsiwn Tai a Argymhellir | Cymorth a Argymhellir | Nifer yr achosion (gan gynnwys %) | Tuedd a Ragwelir (gan gynnwys %) |
|---|---|---|---|---|
| **Isel/dim** | Tŷ prif ffrwd | Cymorth unigol | Unigolion sengl - 89 Teuluoedd - 51 Cyfanswm - 140 (52.8%) | 53% |
| **Canolig** | Tŷ prif ffrwd | Cymorth unigol, gan gynnwys cymorth amlasiantaeth o bosibl | Unigolion sengl - 51 Teuluoedd - 24 Cyfanswm - 75 (28.3%) | 28% |
| **Uchel** | Tŷ prif ffrwd | Tai yn Gyntaf | | 15% |


| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | / cefnogaeth ddwys yn ôl yr angen, gan gynnwys cymorth amlasiantaeth | Unigolion sengl - 39 Cyfanswm - 39 (14.7%) | | | |
| **Dwys (24/7)** | Tŷ â chymorth | Cefnogaeth breswyl | Unigolion sengl - 11 Cyfanswm - 11 (4.2%) | | 4% | |

*Mae'r siart isod yn dangos canlyniad yr asesiad o anghenion cymorth o 109 o aelwydydd a gynhaliwyd ym Mehefin 2020:*


| Dwysedd y gefnogaeth sydd ei hangen | Hirdymor - 12 mis + | Tymor canolig - 3-12 mis | Tymor byr <3 mis | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Isel <1 awr yr wythnos** | 1 | 3 | 38 | **42 (38.5%)** |
| **Canolig 1 - 2 awr yr wythnos** | 6 | 22 | 6 | **34 (31.2%)** |
| **Uchel 3 awr+ yr wythnos** | 16 | 4 | 0 | **20 (18.3%)** |
| **Uchel iawn 24/7** | 13 | 0 | 0 | **13 (11.9%)** |
| **Cyfanswm** | **36** | **29** | **44** | **109** |

Er bod y paramedrau a ddefnyddiwyd yn y ddau asesiad ychydig yn wahanol, mae modd eu cymharu:

*Canlyniadau asesiad o anghenion cymorth mis Mehefin 2020:*




*Canlyniadau asesiad o anghenion cymorth mis Ebrill/Mai 2020:*





Ychydig iawn o anghenion cymorth, os o gwbl, oedd gan y mwyafrif o'r 265 o aelwydydd a ystyriwyd ym mis Ebrill/Mai 2022 (52.8%), a dim ond canran fechan iawn oedd ag angen dwys am gymorth 24/7 (4.2%). Aelwydydd unigolion sengl yw'r unig fath o aelwyd sy'n ymofyn cymorth yn y grwpiau cymorth lefel uchel a dwys. Roedd pawb oni bai am yr 11 unigolyn sengl â'r anghenion cymorth mwyaf dwys yn ymofyn tai prif ffrwd. Mae angen asesu faint o'r aelwydydd yn y grŵp cymorth lefel uchel fyddai'n elwa o wasanaeth Tai yn Gyntaf. Mae'n debygol y byddai gwasanaeth gyda rhai elfennau o ddull Tai yn Gyntaf yn briodol ar gyfer nifer uwch o bobl.

Mae'r duedd yn nifer y ceisiadau digartref a'r mathau o aelwydydd wedi'u hamlinellu yn Adran 2, a disgwylir y bydd canrannau aelwydydd ym mhob grŵp cymorth i'r dyfodol yn parhau i fod yn debyg i'r canrannau a nodwyd yn yr asesiad o anghenion cymorth a gwblhawyd ym mis Ebrill/Mai 2022.

*Cymharu canlyniadau'r asesiadau anghenion cymorth:*



*Proffil Oedran y prif ymgeisydd ar gyfer y ddau asesiad o anghenion cymorth:*




*Math o aelwyd ac oedran y prif ymgeisydd ar gyfer y ddau asesiad o anghenion cymorth:*

| | Ebrill / Mai 2022 | Ebrill / Mai 2022 | Mehefin 2020 | Mehefin 2020 |
|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Teulu** | **Unigolyn Sengl** | **Teulu** | **Unigolyn Sengl** |
| **16 i 24** | 17 | 55 | 4 | 24 |
| **25 i 35** | 17 | 73 | 8 | 27 |
| **36 i 45** | 19 | 39 | 4 | 14 |
| **46 i 54** | 5 | 21 | 3 | 20 |
| **55 i 64** | 1 | 13 | 1 | 3 |
| **65 i 74** | 0 | 4 | 0 | 3 |
| **75+** | 0 | 1 | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **59** | **206** | **20** | **93** |

### 3.3 Anghenion cymorth

Mae'n hawdd nodi anghenion cymorth aelwydydd sy'n byw mewn llety prydles dros dro o'i gymharu ag aelwydydd sy'n byw mewn mathau eraill o lety dros dro. Y rheswm dros hyn yw, mae'r mwyafrif o'r aelwydydd hyn wedi byw yn y math yma o lety ers peth amser, ac yn derbyn gwasanaeth rheoli tai gan ddarparwr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Cynhelir cyfarfod adolygu misol rhwng y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig a'r Tîm Atal Digartrefedd. O ganlyniad, caiff anghenion cymorth eu nodi a'u cofnodi'n glir.

*Mathau o gymorth sydd ei angen ar aelwydydd sy'n byw mewn llety dros dro a gaiff eu gosod:*

| | Teulu | Sengl | Cwpwl | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| **Ymarferol** | 36 | 14 | 0 | **50** |
| **Penodol / arbenigol** | 10 | 14 | 2 | **26** |
| **Ymgysylltu** | 3 | 7 | 0 | **10** |
| **Sefydlogi** | 9 | 9 | 0 | **18** |
| **Cynnydd** | 0 | 3 | 0 | **3** |
| **CYFANSWM** | **58** | **47** | **2** | **107** |

Mae ystod eang o anghenion cymorth wedi'u nodi. Mae'r pwyntiau allweddol wedi'u hamlygu isod:

- Mae'r mwyafrif o aelwydydd yn ymofyn cymorth ymarferol o rhyw fath, ond fe allai hyn fod ar lefelau gwahanol, a thros gyfnodau gwahanol o amser.
- Mae gan nifer o aelwydydd ôl-ddyledion rhent sylweddol sy'n eu hatal rhag cael eu hystyried ar gyfer llety arall.
- Mae nifer o aelwydydd sydd angen cymorth â rheoli eu llety presennol ac mae'n debygol y bydd arnynt angen y gefnogaeth hon ar ôl iddynt symud ymlaen o lety dros dro.
- Mae ystod o gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen, gan gynnwys cefnogi aelwydydd gydag anableddau / salwch difrifol, yn ogystal ag anghenion iechyd meddwl a chyffuriau / alcohol.
- Mae rhai pobl sydd wedi goroesi camdriniaeth ddomestig yn ymofyn cefnogaeth barhaus.

Ar gyfer aelwydydd sy'n byw mewn mathau eraill o lety, nid yw eu hanghenion cymorth wedi'u casglu mewn un lle. Cofnodir symiau mawr o ddata fel rhan o bob cais digartref, ond nid bob amser mewn modd y gellir ei allosod yn hawdd. Rhoddir ystyriaeth i sut y gellir gwella hyn, er mwyn gallu cynnal yr asesiad o anghenion cymorth nesaf yn gyson ar draws bob math o lety dros dro ac fel sy'n ofynnol dan y canllawiau ailgartrefu cyflym.

Mae gan aelwydydd sy'n byw mewn mathau eraill o lety ystod eang o anghenion cymorth sy'n cynnwys y defnydd o gyffuriau/alcohol, anghenion iechyd meddyliol a chorfforol, camdriniaeth ddomestig, rhai sy'n gadael gofal, cyngor ariannol, ymddygiad troseddol, cefnogaeth tenantiaeth, hunan-niwed. Roedd nifer o aelwydydd yn wynebu mwy nag un problem. Mae hyn yn amlygu'r pwysigrwydd o fedru darparu cymorth hyblyg, amlasiantaeth wedi'i deilwra.

Rhan allweddol o'r broses o symud tuag at ddull ailgartrefu cyflym yw gwaredu diwylliant a disgwyliadau parodrwydd tenantiaeth. Mae gan y mwyafrif helaeth o aelwydydd sy'n profi digartrefedd lefelau o anghenion cymorth sy'n golygu bod tai prif ffrwd yn addas ar eu cyfer. Mae'r ddau asesiad o anghenion cymorth yn dangos fod pobl sengl yn cynrychioli cyfran uwch o aelwydydd. Yn yr asesiad diweddaraf ym mis Ebrill/Mai 2022, nid oedd unrhyw deuluoedd yn ymofyn cymorth dwys neu lefel uchel.

Ar gyfer yr aelwydydd unigolion sengl gydag anghenion cymorth 24 awr dwys, bydd yn rhaid nodi llety priodol gyda darpariaeth cymorth nad yw'n opsiwn prif ffrwd. Er mai ychydig iawn o bobl sydd yn y grŵp hwn, mae anghenion cymorth y cleientiaid yn amrywiol iawn ac maent yn aml wedi profi trawma. Bydd ein tai â chymorth presennol yn cael ei adolygu fel rhan o'n cynllun pontio i ailgartrefu cyflym i sicrhau ein bod yn comisiynu'r math o ddarpariaeth sydd ei angen. Mae'n bosibl y bydd angen gwasanaethau newydd i fodloni'r anghenion hyn, o bosibl gan ddarparu lefel o ofal yn ogystal â chymorth y byddai'n rhaid ei gomisiynu drwy waith partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

### 3.4 Gofynion llety

Mae'r data o'r ddau asesiad yn amlygu'r lefel o angen ar gyfer unedau bychan o lety fforddiadwy er mwyn bodloni anghenion tai'r aelwydydd unigolion sengl. Yn yr asesiad ym mis Ebrill/Mai 2022, roedd 128 o'r 206 o aelwydydd unigolion sengl yn 35 oed neu iau ac roedd 188 ohonynt dan 55 oed. Mae'r cyflenwad tai sefydlog fforddiadwy ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid yn brin iawn.

#### 3.4.1 Mynediad

*Mae anghenion mynediad eiddo mis Mehefin 2020 fel a ganlyn:*

| Mater | Cyfanswm Mehefin 2020 |
|---|---|
| Plentyn ag anableddau | 1 |
| Llawr Gwaelod | 3 |
| Llawr gwaelod - mewn cadair olwyn | 1 |
| Llawr gwaelod - plentyn anabl | 1 |
| Llawr gwaelod neu un set o risiau | 1 |
| Ci sydd angen byw gyda'r preswylwyr | 2 |

| | |
|---|---|
| **Llawr gwaelod posibl yn sgil materion meddygol** | **1** |
| **Cyfanswm** | **10** |

*Roedd gan 13 aelwyd anghenion mynediad yn asesiad Ebrill/Mai 2022, fel yr amlinellir isod:*

| Angen | Cyfanswm Ebrill/Mai 2022 |
|---|---|
| **Llawr gwaelod yn sgil cyflwr meddygol** | 7 |
| **Llawr gwaelod yn sgil anabledd (oedolyn)** | 3 |
| **Llawr gwaelod yn sgil anabledd (plant)** | 1 |
| **Mynediad gwastad / mae'n bosibl y byddant yn gallu byw ar y llawr cyntaf** | 2 |
| **CYFANSWM** | **13** |


Mae'r mwyafrif o'r rhain yn aelwydydd unigolyn sengl, fodd bynnag, mae un o'r aelwydydd yn deulu sy'n ymofyn llety tair ystafell wely llawr gwaelod. Mae pedwar o'r aelwydydd hyn yn ymofyn llety wedi'i addasu.

### 3.4.2 Lleoliad

Mae gwybodaeth wedi cael ei chasglu ar yr ardaloedd y mae pobl yn dymuno byw. Defnyddir y wybodaeth hon wrth ddatblygu llety â chymorth a llywio unrhyw ddatblygiadau tai fforddiadwy.

*Dewis cyntaf aelwydydd ar gyfer llety:*

| Ardaloedd y Farchnad Dai Leol |
|---|
| AFDL 1 (Gorllewin) |
| AFDL 2 (Gogledd) |
| AFDL 3 (Canol) |
| AFDL 4 (Dwyrain) |
| AFDL 5 (De) |




| | Galw gan aelwydydd digartref mewn Llety Dros Dro | Stoc bresennol – 1 ystafell wely* | Trosiant stoc 1 ystafell wely yn 2021/22* | Stoc bresennol - 2 ystafell wely | Trosiant stoc 2 ystafell wely yn 2021/22 | Stoc bresennol – 3 ystafell wely | Trosiant stoc 3 ystafell wely yn 2021/22 | Stoc bresennol - 4+ ystafell wely |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dwyrain** | 20 | 265 | 12 | 270 | 12 | 326 | 8 | 21 |
| **Canol** | 86 | 759 | 52 | 537 | 30 | 690 | 15 | 49 |
| **Gogledd** | 59 | 481 | 31 | 382 | 21 | 454 | 7 | 52 |
| **De** | 6 | 127 | 9 | 233 | 9 | 270 | 1 | 4 |
| **Gorllewin** | 42 | 274 | 18 | 352 | 21 | 514 | 12 | 52 |
| **Unrhyw le** | 9 | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **Tu allan i'r ardal** | 8 | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **Heb ei nodi** | 15 | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |
| **Ddim ar y gofrestr tai** | 8 | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol | | Amherthnasol |

*mae hyn yn cynnwys llety sydd ond ar gael i bobl dros 55 oed
Mae diffyg cynrychiolaeth trosiant stoc yn sgil bwlch yn y data.

*Galw gan aelwydydd digartref mewn llety dros dro:*

| |
|---|
| AFDL 1 (Gorllewin) |
| AFDL 2 (Gogledd) |
| AFDL 3 (Canol) |
| AFDL 4 (Dwyrain) |
| AFDL 5 (De) |





*Y 5 prif ardal o ddewis:*

| | Pobl Sengl | Cyplau | Aelwydydd gyda phlant |
|---|---|---|---|
| **1.** | Bae Colwyn | Llandudno / Conwy | Bae Colwyn |
| **2.** | Llandudno | | Llandudno |
| **3.** | Hen Golwyn / Conwy | | Hen Golwyn / Cyffordd Llandudno |
| **4.** | Cyffordd Llandudno / Llandrillo-yn-Rhos, / Deganwy | | Llandrillo-yn-Rhos |
| **5.** | Abergele / Penmaenmawr / Llanfairfechan / Llanddulas / Llanrwst / Mochdre / Llansannan | | Abergele |

*Cyflenwad (trosiant stoc 2021/22 ac unedau cymdeithasol newydd a ddatblygwyd yn 2021/22:*

| |
|---|
| AFDL 1 (Gorllewin) |
| AFDL 2 (Gogledd) |
| AFDL 3 (Canol) |
| AFDL 4 (Dwyrain) |
| AFDL 5 (De) |




*Y 5 prif ardal gyda'r lefelau stoc uchaf:*

| | 1 ystafell wely | 2 ystafell wely | 3 ystafell wely | 4+ ystafell wely |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Llandudno | Llandudno | Llandudno | Llandudno |
| 2. | Bae Colwyn | Bae Colwyn | Ystâd Peulwys | Conwy |
| 3. | Hen Golwyn | Abergele | Abergele / Cyffordd Llandudno | Cyffordd Llandudno |
| 4. | Llandrillo-yn-Rhos | Penmaenmawr | Conwy | Bae Colwyn |
| 5. | Abergele | Llanrwst | Llanrwst | Bae Cinmel |

Er bod stoc ar gael yn ardaloedd dewisol ymgeiswyr yn y sir, y broblem fwyaf sylweddol yw'r gyfradd trosiant araf, ynghyd â'r galw uchel gan aelwydydd eraill ar y gofrestr tai sydd ym Mand 1 ac â lefel uchel o anghenion tai. Mae aelwydydd digartref fel arfer ym Mand 2. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr digartref yn gymwys ar gyfer Band 1, e.e. mewn achosion o gamdriniaeth ddomestig. Mewn amgylchiadau eraill, megis ôl-ddyledion rhent, mae'n bosibl y bydd aelwydydd digartref ym Mand 4 nes y byddant wedi mynd i'r afael â'r rhain i safon foddhaol.

Gellir crynhoi meysydd o ddewis fesul grŵp cymorth. Er enghraifft, mae'r 11 aelwyd (sydd i gyd yn bobl sengl) yn asesiad Ebrill/Mai 2022 sy'n ymofyn cymorth 24/7 wedi nodi'r ardaloedd canlynol fel eu dewis cyntaf:


| Ardal o Ddewis | Nifer yr aelwydydd |
|---|---|
| Bae Colwyn | 2 |
| Tal-y-Bont | 1 |
| Heb Ddatgan | 1 |
| Llandudno | 3 |
| Llandrillo-yn-Rhos | 1 |
| Conwy | 2 |
| Ystyried pob ardal | 1 |
| **CYFANSWM** | **11** |

### 3.4.2 Fforddiadwyedd


Mae manylion incwm aelwydydd wedi cael eu casglu er mwyn pennu’r opsiynau tai sy’n fforddiadwy. Nid yw aelwydydd sy’n derbyn budd-daliadau neu ar incwm isel arall bellach yn gallu fforddio llety yn y sector rhentu preifat, gan fod rhent yn llawer uwch na chyfraddau Lwfans Tai Lleol. Yn ogystal â hynny, mae gan nifer o’r aelwydydd sy’n derbyn Credyd Cynhwysol ddirwyon a/neu ddidyniadau, sy’n lleihau eu hincwm, yn sylweddol mewn rhai achosion, sy’n golygu bod eu hincwm ar gyfer costau byw yn gostwng yn sylweddol. Tai cymdeithasol yw’r unig opsiwn tai sefydlog fforddiadwy a’r dewis cyntaf ar gyfer y mwyafrif o bobl, yn sgil y fforddiadwyedd a’r sicrwydd mae’n ei gynnig.

Mae’r canlynol yn cynnig trosolwg o ffynonellau incwm ar gyfer y rheiny y cynhaliwyd asesiad o anghenion cymorth ar eu cyfer ym mhob ymarfer:

*Crynodeb o fanylion incwm bob aelwyd ym mis Mehefin 2020:*



*Crynodeb o fanylion incwm bob aelwyd ym mis Ebrill/Mai 2020:*





*Sylwer: Nid oedd yn hawdd cael mynediad at incwm aelwydydd*

Mae'r mwyafrif o aelwydydd yn derbyn budd-daliadau. Mae nifer o aelwydydd sy'n gweithio hefyd yn derbyn budd-daliadau.

### 3.4.4 Math / maint yr aelwyd

Mae'r mwyafrif o aelwydydd yn bobl sengl, 190 o aelwydydd pobl sengl allan o gyfanswm o 265 o aelwydydd. O'r 73 aelwyd gyda phlant, mae 16 teulu sydd â 4 neu fwy o blant, ac felly angen eiddo mwy. Ychydig iawn o'r rhain sydd, os o gwbl, o fewn y stoc tai cymdeithasol (gweler adran 2.2.). Ychydig iawn o dai cymdeithasol sydd ar gael ar gyfer unigolion sengl dan 55 oed.

*Crynodeb o aelwydydd ym mis Ebrill/Mai 2022:*




| | Pobl sengl | Cyplau heb plant | Yn feichiog | 1 plentyn | 2 blentyn | 3 blentyn | 4 blentyn | 5 blentyn | 6 blentyn | 7 blentyn | 9 blentyn |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dadansoddiad o aelwydydd Mehefin 2020 | 91 | 0 | 0 | 11 | 3 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dadansoddiad o aelwydydd Ebrill / Mai 2022 | 190 | 2 | 2 | 18 | 21 | 17 | 7 | 4 | 2 | 1 | 2 |

Mae'r mwyafrif o aelwydydd â phlant yn byw mewn llety hunangynhwysol neu lety prydles dros dro. Mae eu gofynion eiddo fel a ganlyn:

*Maint yr eiddo sydd ei angen ar gyfer aelwydydd mewn llety prydles dros dro:*

| Maint yr Eiddo | Nifer yr aelwydydd |
|---|---|
| **1 ystafell wely, llawr gwaelod** | 5 |
| **2 ystafell wely, llawr gwaelod** | 2 |
| **3 ystafell wely, llawr gwaelod** | 1 |
| **1 ystafell wely** | 42 |
| **2 ystafell wely** | 25 |
| **3 ystafell wely** | 13 |
| **4 ystafell wely** | 14 |
| **5 ystafell wely** | 3 |
| **8 ystafell wely** | 1 |
| **9 ystafell wely** | 1 |
| **Cyfanswm** | **107** |

### 3.5 Asesu/prif ffrydio parhaus

Mae angen ymgymryd ag asesiadau mwy cynhwysol o anghenion cymorth yn ystod cyfnodau cyntaf ceisiadau digartref. O bryd i'w gilydd, bydd anghenion cymorth ychwanegol yn dod i'r amlwg dros amser, ac nid oes modd cael darlun llawn o'r dechrau. Mae trefniadau i fynd i'r afael â'r rhain yn cael eu hystyried, er mwyn cefnogi'r broses o bontio i ddull ailgartrefu cyflym.
Bydd gweithio gyda phartneriaid allweddol yn hanfodol ar gyfer symud tuag at ddull ailgartrefu cyflym. Mae ganddynt rôl allweddol yn cyfrannu at atal digartrefedd drwy ddarparu cymorth wedi'i deilwra i aelwydydd gydag anghenion cymorth canolig a dwys.

Bydd niferoedd aelwydydd ym mhob grŵp cymorth yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a fydd yn cael ei gefnogi gan y gwelliannau sydd ynghlwm â'r broses geisiadau digartrefedd a nodwyd o fewn yr adran hon.

## 4.0 Cyflenwad llety dros dro lleol

Mae’r adran hon o’r Cynllun yn darparu gwybodaeth sy’n rhoi gwell dealltwriaeth o’r cyflenwad presennol o lety dros dro.

### 4.1 Trosolwg sylfaenol

Mae’r mwyafrif o bortffolio llety dros dro Conwy’n cynnwys eiddo ar brydles gan berchnogion preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ynghyd â dibyniaeth drom ar lety gwely a brecwast / gwestai gan ddarparwyr preifat ar sail hyblyg. Gall cynyddu prosesau caffael wrth i’r galw gynyddu, fel sydd wedi digwydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, achosi problemau, gan fod y mwyafrif o’r sefydliadau hefyd yn darparu ar gyfer y farchnad dwristiaeth. Mae’r farchnad eiddo (gwerthu a rhentu) yn fywiog iawn, sy’n creu cyfleoedd eraill ar gyfer perchnogion. Mae ambell i achlysur wedi bod yn y ddwy flynedd ddiwethaf lle’r oedd angen llety dros dro ar gyfer aelwyd ac nid oedd yna rai ar gael. I ddatrys y broblem hon, defnyddiwyd y rhyngrwyd i ddod o hyd i lety gwyliau.
Gan fod y dull ‘pawb i mewn’ wedi ei gwneud yn ofynnol i ni ddarparu ar gyfer rhagor o bobl, llawer ohonynt yn aelwydydd unigolion sengl, rydym wedi cynyddu ein llety gwely a brecwast yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Nid yw’r Cyngor yn arfer defnyddio llety math ‘hostel’ fel llety dros dro, fodd bynnag, mae’n prydlesu ac yn rheoli gwesty bychan at y diben hwn. Mae dau hostel bychan yng Nghonwy sy’n eiddo i ac yn cael eu cynnal gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac fe’u defnyddir i ddarparu tai â chymorth.

*Crynodeb o'r ddarpariaeth llety dros dro gyfredol:*
Ffynhonnell: Datrysiadau Tai Conwy

| Math o lety dros dro | Capasiti sylfaenol (unedau ar 31/3/22)* | Grwpiau a dderbynnir - unrhyw eithriadau? | Gwasanaethau sydd ar gael ar y safle | Taliadau Gwasanaeth (Oes/Nag oes) | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfannau brysbennu** | - | - | - | - | Dim ar hyn o bryd |
| **Eiddo prydles ar wasgar** | 132 eiddo | Dim | Dim | Nag oes | Caiff eiddo eu prydlesu gan berchnogion preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ac mae bob un ohonynt yn gartrefi hunangynhwysol |
| **Eiddo prydles** | 8 eiddo | Dim | Dim | Nag oes | Wedi'i brydlesu gan Landlord Cofrestredig Cymdeithasol, a'i reoli ar wahân i'r uchod, hunangynhwysol |
| **Llety gwely a brecwast** gyda chyfleusterau cegin i'w rhannu** | 128 cartref | Mae cyfyngiadau'n amrywio'n unol â pharodrwydd perchnogion i dderbyn rhai aelwydydd, yn arbennig y rheiny gydag anghenion mwy cymhleth. Gall cyfyngiadau newid yn unol â'r aelwydydd eraill sy'n byw yno. Mae dau lety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc yn unig, bydd llety arall yn derbyn pobl 25 oed+ yn unig. | Ymweliadau rheolaidd gan Swyddogion Symud ymlaen, cefnogaeth yn ôl yr angen | Nag oes | Mae gan y mwyafrif o letyau gwely a brecwast ystafelloedd *en suite* |
| **Llety gwely a brecwast** hunangynhwysol** | 2 aelwyd | | | | |
| **Gwesty gyda chyfleusterau cegin a rennir** | 9 ystafell | Dim | Diogelwch 24/7, Ymweliadau rheolaidd gan Swyddogion Symud ymlaen, cefnogaeth yn ôl yr angen | Nag oes | Wedi'i brydlesu gan y Cyngor o fis Gorffennaf 2021 i fodloni'r galw am lety dros dro, mae 7 allan o 9 o'r ystafelloedd yn rhai *en suite* |
| **Eiddo gyda chyfleusterau a rennir** | 5 ystafell | Ar gyfer pobl ag anghenion mwy cymhleth / bywydau anhrefnus. | Diogelwch 24/7, ymweliadau rheolaidd gan Swyddogion Symud ymlaen, cefnogaeth yn ôl yr | Nag oes | Prydles a defnydd arbennig ar gyfer aelwydydd digartref |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | angen, ymweliadau rheolaidd gan y gweithiwr CAIS | | |
| **Gwely brys gyda chyfleusterau a rennir** | 2 ystafell | Ar gyfer unigolion sengl â phroblemau cyffuriau / alcohol | Staff cymorth 24/7 | Oes | Mynediad brys at 2 ystafell mewn hostel |
| **Carafanau** | 3 aelwyd | Dim | Dim | Nag oes | Mae un ar dir llety gwely a brecwast, mae dau ar safle |

* nid yw hyn yn cynnwys yr unedau hynny y disgwylir iddynt gael eu colli ar ôl y pandemig
** caiff llety gwely a brecwast ei gaffael yn ôl yr angen

*Crynodeb o'r ddarpariaeth llety dros dro gyfredol:*
Ffynhonnell: Datrysiadau Tai Conwy

| Math o lety dros dro | Capasiti sylfaenol (unedau ar 31/3/22)* | Grwpiau a dderbynnir - unrhyw eithriadau? | Gwasanaethau sydd ar gael ar y safle | Taliadau Gwasanaeth (Oes/Nag oes) | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | 16 | Dim | Staff cymorth ar gael ar rai adegau o'r diwrnod | Oes | Tai â chymorth a rennir |
| | 4 | Dynion yn unig | 24/7 | Oes | Tai â chymorth a rennir |
| **Problemau alcohol / camddefnyddio sylweddau** | 6 | Dim | Dim | | Hunangynhwysol |
| | 22 | Llety lle nad oes alcohol ar gael | 24/7 | Oes | Mae gan 2 uned rai cyfleusterau hunangynhwysol ac ar gyfer defnyddwyr methadon |
| | 6 | Llety lle nad oes alcohol ar gael | Dim | Oes | Hunangynhwysol |
| **Cyn-droseddwyr** | 4 | Dim | Dim | Oes | Hunangynhwysol |
| **Pobl Ifanc** | 25 | Dim | 12 uned 24/7 | Oes | 12 ystafell *en suite*, 13 hunangynhwysol |
| | 9 | Dim | | Nag oes | Unigolyn ifanc yn byw gyda deiliad y tŷ |
| | 3 | Merched yn unig | Staff cymorth ar gael ar rai adegau o'r diwrnod | Oes | |
| | 5 | Dim | 24/7 | Nag oes | Cyfradd Lwfans Tai Lleol |
| **VAWDASV** | 3 | Dim | Dim | Oes | Hunangynhwysol |
| **Cyffredinol** | 7 | Dynion yn unig | 24/7 | Oes | |
| | 19 | Dim | 13 uned 24/7 | Oes | 6 hunangynhwysol |
| | 40 | Dim | Dim | Oes | Hunangynhwysol |
| | 21 | Dim | Staff cymorth ar y safle yn ystod y diwrnod | Oes | 6 hunangynhwysol, 2 a rennir |
| | 16 | Dim | 24/7 | Oes | |
| **Arall (Teuluoedd rhieni sengl)** | 5 | Merched yn unig | Dim | Oes | Hunangynhwysol |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ffoaduriaid** | 11 | Merched yn unig (a plant lle bo hynny’n berthnasol) | Staff cymorth ar y safle yn ystod y diwrnod | Oes | |

## 4.2 Defnydd

Bydd nifer o aelwydydd yn byw mewn sawl llety dros dro yn ystod eu cyfnod o fod angen llety dros dro. Fe allai hyn fod yn sgil argaeledd, i alluogi pobl i fod yn nes at eu cymuned leol, cael mynediad at lety mwy priodol neu fe allai fod yn gysylltiedig â rheolaeth y llety dros dro.

*Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd aelwydydd digartref ym mhob math o lety dros dro:*
Ffynhonnell: Adran Gyllid Conwy

| Dyddiad | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer cyfartalog y dyddiau | 213 | 231 | 158 | 224 |

Ar 31 Mawrth 2022, roedd 279 o aelwydydd yn byw mewn llety dros dro. Roedd yr aelwydydd hyn yn cynnwys 89 teulu a 190 o bobl sengl.

*Yr amser a dreuliwyd ym mhob math o lety dros dro fesul aelwyd ar 31 Mawrth 2022:*
Ffynhonnell: Cartrefi Conwy

| | Llai na 6 mis | 6-12 mis | Dros flwyddyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Aelwydydd | 154 | 47 | 78 | **279** |
| - y nifer ohonynt sy'n deuluoedd â phlant | 41 | 9 | 39 | **89** |
| - y nifer ohonynt sy'n bobl sengl | 113 | 38 | 39 | **190** |

Er bod nifer cyfartalog y dyddiau'n cynyddu bob blwyddyn, mae rhai sefyllfaoedd aelwydydd sy'n gogwyddo'r ffigurau. Wrth ystyried yr aelwydydd sydd wedi treulio'r cyfnodau hiraf mewn llety prydles dros dro, roedd 22 aelwyd wedi symud i lety dros dro cyn 2020; un aelwyd wedi bod yn byw yno ers 2014, un ers 2015, un ers 2016, pedwar ers 2017, pump ers 2018 a deg ers 2019. Mae hyn o ganlyniad i nifer o resymau; maent yn ymofyn llety mwy (yn amrywio o 4 i 9 ystafell wely), mae arnynt angen llety arbenigol / wedi'i addasu i'w hanghenion yn sgil anabledd a/neu, mae ganddynt ôl-ddyledion rhent sylweddol yn eu heiddo presennol. Hyd cyfartalog yr arhosiad ar gyfer yr aelwydydd hyn hyd at ddiwedd mis Mai 2022 oedd 1,468 diwrnod.

***Gwely a Brecwast***

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo amrywiaeth o letyau Gwely a Brecwast/gwestai i'w prynu yn ôl y galw fesul noson a/neu wythnos. Defnyddir y lletyau hyn gan wahanol fathau o aelwydydd. Unigolion sengl sy'n treulio'r cyfnodau hiraf yn y mathau hyn o lety yn sgil diffyg tai fforddiadwy i symud ymlaen iddynt.

*Nifer cyfartalog y diwrnodau y bu i bob aelwyd ddigartref a adawodd yn ystod y flwyddyn eu treulio mewn llety gwely a brecwast:*
Ffynhonnell: Adran Gyllid Conwy

| Dyddiad | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Nifer cyfartalog y dyddiau | 52.7 | Amherthnasol | 58.4 | 89.5 |

*Nifer cyfartalog y diwrnodau y bu i bob aelwyd ddigartref gyda phlant a adawodd yn ystod y flwyddyn eu treulio mewn llety gwely a brecwast:*
Ffynhonnell: Adran Gyllid Conwy

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| | 35.8 | Amherthnasol | 63.7 | 83.3 |

*Yr amser a dreuliwyd mewn llety Gwely a Brecwast fesul aelwyd ar 31 Mawrth 2022:*
Ffynhonnell: Cartrefi Conwy

| | Cyfanswm Aelwydydd | - y nifer ohonynt sy'n deuluoedd â phlant | - y nifer ohonynt sy'n bobl sengl |
|---|---|---|---|
| **Llai na phythefnos** | 15 | 3 | 12 |
| **2 i 6 wythnos** | 24 | 8 | 16 |
| **6 wythnos i 6 mis** | 62 | 8 | 54 |
| **6 i 12 mis** | 23 | 0 | 23 |
| **Dros flwyddyn** | 4 | 0 | 4 |
| **Cyfanswm** | **128** | **19** | **109** |

Mae aelwydydd yn talu'r gyfradd Budd-daliadau Tai ac yn hawlio cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Nid ydynt yn talu am lety gwely a brecwast os nad ydynt yn gymwys am Fudd-daliadau Tai.

***Eiddo prydles***

Mae gan CBSC bortffolio amrywiol o eiddo y maent yn eu prydlesu gan berchnogion preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r lletyau wedi'u lleoli ar draws y sir, gan alluogi gymaint o aelwydydd â phosibl i barhau i fyw o fewn eu cymunedau ac yn agos at wasanaethau ac amwynderau. Darperir gwasanaethau rheoli tai gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig lleol drwy gontract.

Fel arfer, bydd pobl yn cael mynediad at lety prydles yn dilyn cyfnod mewn llety Gwely a Brecwast, oherwydd fel arfer, bydd angen aros i eiddo ddod ar gael. Mae nifer yr eiddo ar y cynllun yn amrywio i ryw raddau, ond mae recriwtio eiddo ychwanegol gan berchnogion preifat yn heriol ar hyn o bryd gan fod gan berchnogion opsiynau amgen sy'n cynnig mwy o elw ar gyfer eu heiddo.

Mae aelwydydd yn talu'r gyfradd Budd-daliadau Tai ac yn hawlio cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

***Mathau eraill o lety dros dro***

*Nifer cyfartalog y dyddiau y treuliodd aelwydydd digartref mewn mathau eraill o lety dros dro (gan eithrio llety gwely a brecwast):*

| Dyddiad | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer cyfartalog y dyddiau** | 344.1 | Amherthnasol | 391.7 | 513.2 |

- ***Eiddo gyda chyfleusterau a rennir***

Caiff yr eiddo hyn eu prydlesu gan y Cyngor a'u defnyddio mewn modd tebyg i lety Gwely a Brecwast.

Mae aelwydydd yn talu'r gyfradd Budd-daliadau Tai ac yn hawlio cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Nid ydynt yn talu am y llety hwn os ydynt yn gymwys am Fudd-daliadau Tai.

- ***Gwely Brys***

Mae dwy ystafell mewn hostel a gynhelir gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig wedi'u dynodi fel llety brys am 28 diwrnod, wrth i anghenion pobl gael eu hasesu. Mae pobl ar hyn o bryd yn treulio cyfnodau hirach yn y math hwn o lety yn sgil diffyg opsiynau symud ymlaen.

- ***Carafanau***

Mae un garafán wedi'i lleol ar dir sefydliad Gwely a Brecwast a ddefnyddir yn rheolaidd. Mae preswylwyr yn talu'r gyfradd Budd-daliadau Tai ac yn hawlio cymorth sy'n gysylltiedig â thai. Nid ydynt yn talu am y llety hwn os nad ydynt yn gymwys am Fudd-daliadau Tai.

Mae dwy ar safle, ac mae'r Cyngor yn eu prydlesu gan y perchennog. Codir y gyfradd rhent Budd-daliadau Tai ar aelwydydd, ac mae'n bosibl y byddant yn hawlio cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Mae costau llety dros dro i'r awdurdod wedi'u cynnwys yn Adran 7.

Mae'r galw am lety dros dro'n cynyddu ar hyn o bryd, gan arwain at ragor o ddefnydd o lety Gwely a Brecwast. Mae nifer yr aelwydydd sy'n gadael llety dros dro yn llai na'r nifer sy'n symud iddynt ar hyn o bryd yn sgil diffyg tai fforddiadwy.

## 4.3 Cynhwysiant

Mae darparu llety dros dro'n heriol yn sgil y nifer cynyddol o bobl newydd sy'n datgan eu bod yn ddigartref, ynghyd â'r diffyg llety fforddiadwy sydd ar gael i aelwydydd symud ymlaen iddynt. Ceir trafferthion arbennig yn darparu'r canlynol:

- llety dros dro hunangynhwysol i'r mwyafrif o aelwydydd ar yr adeg y nodir bod arnynt angen llety dros dro
- llety hunangynhwysol i alluogi pobl sengl i symud ymlaen o lety Gwely a Brecwast
- llety dros dro sy'n bodloni anghenion pobl ag anableddau corfforol, yn arbennig y rhai sy'n cael effaith ar symudedd
- llety dros dro i'r rhai sy'n gadael carchar gydag euogfarnau arbennig megis troseddau rhywiol a thanau bwriadol, ac i bobl sy'n wynebu'r mathu hyn o honiadau
- llety dros dro ar gyfer aelwydydd sy'n ymofyn 4 neu fwy o ystafelloedd gwely
- llety dros dro ar gyfer pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl cymhleth

Ni chodir taliadau gwasanaeth am lety dros dro'r awdurdod. Mae nifer o ddarparwyr tai â chymorth yn gosod eu taliadau gwasanaeth eu hunain i dalu am ystod o wasanaethau megis glanhau, garddio, golchi ffenestri, staffio.

DRAFT

## 5.0 Trawsnewid Llety Dros Dro

Mae'r adran hon o'r Cynllun yn amlinellu cynllun trawsnewid llety dros dro CBSC.

### 5.1 Gweledigaeth

Mae gweledigaeth Conwy ar gyfer llety dros dro fel a ganlyn:

*'Defnyddir llety dros dro i fodloni anghenion tai tymor byr a sicrhau urddas a pharch ar gyfer preswylwyr'.*

Mae pedwar amcan allweddol i gyflawni'r weledigaeth hon:

- Bydd dewisiadau eraill i lety Gwely a Brecwast yn cael eu datblygu
- Bydd safonau llety dros dro'n cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y gorchymyn addasrwydd
- Bydd datrysiadau arloesol i gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy'n cael eu datblygu er mwyn defnyddio llai o letyau dros dro a lleihau'r amser y mae pobl yn ei dreulio yno.
- Bydd trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn cael eu cryfhau i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu ym mhob gwasanaeth i leihau'r angen am lety dros dro

Mae manylion am sut fydd y weledigaeth uchod yn cael ei chyflawni wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Ailgartrefu Cyflym, gweler adran 7.

### 5.2 Heriau Allweddol

Mae graddfa'r argyfwng tai fforddiadwy yng Nghonwy'n golygu bod rhaid defnyddio'r lefel bresennol o lety dros dro. Mae Conwy'n ymrwymo i leihau'r defnydd o lety dros dro; lleihau nifer yr aelwydydd sy'n ymofyn llety dros dro a hyd cyfartalog eu harhosiad er mwyn lleihau'r ddarpariaeth gyffredinol. Mae'r heriau allweddol i gyflawni hyn fel a ganlyn:

| Her | Disgrifiad |
|---|---|
| **Lefel y galw ar y gwasanaeth ar hyn o bryd** | Mae swyddogion yn gweithredu y tu hwnt i'w gallu ar hyn o bryd, mae hyn yn cael effaith ar y gallu i fodloni galw'r gwasanaeth. Gall weithio ar y capasiti hwn hefyd gael effaith ar y cyfathrebu rhwng darparwyr gwasanaeth/yr awdurdod lleol a chwsmeriaid, ac o ganlyniad – efallai nad yw bobl sy'n cael mynediad at y gwasanaeth yn gwbl ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt a/neu ddim yn cael gwybod am eu sefyllfa dai. |
| **Newidiadau i'r asesiad o angen blaenoriaethol** | Mae'r galw ar y gwasanaeth yn debygol o gynyddu ac o ganlyniad, bydd y bwlch rhwng y cyflenwad a'r galw'n parhau i dyfu. Bydd hyn yn cael effaith ar y gallu i symud i ffwrdd o lety dros dro yn y tymor byr i'r tymor canolig. |
| **Opsiynau symud ymlaen sydd ar gael i ymgeiswyr mewn llety dros dro.** | Mae 1,719 o ymgeiswyr ar y gofrestr tai ar hyn o bryd ac nid yw'r polisi dyrannu'n blaenoriaethu ymgeiswyr mewn llety dros dro. Yn ogystal â hynny, mae argaeledd tai fforddiadwy o fewn y sector preifat yn brin iawn. Mae hynny'n golygu ei bod yn anodd canfod opsiynau symud ymlaen i ymgeiswyr mewn llety dros dro.<br><br>Yn sgil opsiynau symud ymlaen cyfyngedig, gall bobl aros mewn llety dros dro am amser hir, sy'n ei gwneud yn anodd pan fyddent yn symud i ardal wahanol, gan fod yr holl gymorth sydd mewn lle angen newid. Gall hyn effeithio ar barhad y cymorth. Gall hefyd fod yn ymyrraeth ar blant a theuluoedd os oes angen newid ysgol er mwyn sicrhau llety parhaol. |

| | |
|---|---|
| **Safonau Llety dros dro** | Nid yw safonau a chyfleusterau yn bodloni anghenion tenantiaid a/neu'r safonau a nodir yn y gorchymyn addasrwydd. |
| **Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** | Mae'r Ddeddf yn darparu rhagor o ddiogelwch i ymgeiswyr sy'n byw mewn llety dros dro. Bydd hyn yn cael effaith ar argaeledd llety dros dro. |
| **Cyllid Llywodraeth Cymru** | Nid yw systemau cyllid cyfalaf presennol Llywodraeth Cymru'n ariannu llety dros dro, bydd hyn yn cael effaith ar y datrysiadau arloesol y gellir eu canfod i ddatblygu datrysiadau amgen. |
| **Ymgeiswyr gydag anghenion cymhleth** | Mae cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr gydag anghenion cymhleth ac opsiynau tai priodol i fodloni eu hanghenion. |

### 5.3 Cynllun Trawsnewid

Y cam gweithredu allweddol i leihau'r defnydd o lety dros dro yw lleihau'r galw. Gellir cyflawni hyn drwy gryfhau'r trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau allweddol i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu ar draws gwasanaethau yn ogystal â chynyddu'r cyflenwad llety fforddiadwy. Amlinellir sut fydd hyn yn cael ei gyflawni yn adran 6.3.2 a 6.3.4.

Yn ogystal â hynny, mae angen cymryd y camau canlynol:

- Cynyddu capasiti'r tîm atal digartrefedd (sonnir am hyn yn adran 7.2)
- Adolygu'r polisi dyrannu mewn partneriaeth â phartneriaid Un Llwybr Mynediad at Dai, gan gynnwys cynllunio ar gyfer rheoli llefydd gwag, er enghraifft, cynnig eiddo gwag i'r rheiny sy'n barod i symud ymlaen o dai â chymorth, gan greu lle gwag i rywun sydd angen tai â chymorth
- Ymgymryd ag adolygiad o'r dull prydlesu uniongyrchol dros dro
- Adolygu aelwydydd llety dros dro hirdymor er mwyn datblygu cynllun ar gyfer bob un a fydd yn hwyluso'r broses o symud ymlaen i lety sefydlog.
- Blaenoriaethu trefniadau symud ymlaen ar gyfer aelwydydd gyda phlant sy'n byw mewn llety Gwely a Brecwast er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o effeithiau niweidiol
- Ystyried opsiynau cyllid i ddatblygu dulliau newydd ar gyfer darparu llety dros dro tymor byr, gan gynnwys gweithio gyda Llywodraeth Cymru
- Cefnogi landlordiaid i lunio trefniadau symud ymlaen i denantiaid y mae eu tenantiaeth wedi methu
- Cynyddu mynediad at eiddo Sector Rhentu Preifat fforddiadwy drwy'r Asiantaeth Gosod Tai Cymdeithasol a mentrau eraill megis Cynllun Prydlesu Cymru
- Ystyried cyfleusterau sydd ar gael i bobl sy'n byw mewn llety dros dro rŵan a defnyddio'r adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad RRP i ganfod beth sydd angen cael ei wneud i sicrhau fod y llety yn bodloni anghenion tenantiaid rŵan ac yn y dyfodol.
- Ystyried trefniadau diogelu a monitor effeithiolrwydd
- Sicrhau parhad y gofal pan fydd pobl yn symud ymlaen o lety dros dro
- Swyddogion Atal Digartrefedd i adolygu amlder, cynnwys a'r dulliau a ddefnyddir i gyfathrebu gyda phobl sy'n byw mewn llety dros dro.

DRAFT

## 6.0 Datblygu'r Cynllun

Mae'r adran hon yn amlinellu sut y bydd CBSC yn pontio i ddull ailgartrefu cyflym.

### 6.1 Gweledigaeth

Mae gweledigaeth Ailgartrefu Cyflym Conwy fel a ganlyn:

*'Mae gwasanaethau allweddol yn darparu dull cydlynol i weithgarwch atal digartrefedd er mwyn sicrhau bod digartrefedd yn rhywbeth prin yng Nghonwy. Lle na ellir atal digartrefedd, gall pobl symud i lety sefydlog yn gyflym a chael mynediad at* ***gymorth priodol, er mwyn sicrhau na chaiff digartrefedd ei ailadrodd.*** *Os oes angen llety dros dro, bydd yn cael ei ddefnyddio am gyfnod byr yn unig.'*

Mae pedwar amcan allweddol i gyflawni hyn:

- Trawsnewid ansawdd a defnydd llety dros dro
- Cynyddu nifer y tai fforddiadwy
- Sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r rhai sydd ei angen
- Cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu ar draws pob gwasanaeth

Mae manylion am sut fydd y weledigaeth uchod yn cael ei chyflawni wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Ailgartrefu Cyflym, gweler adran 7.

### 6.2 Atal Digartrefedd

Mae'r heriau allweddol o ran cyflawni canlyniadau atal digartrefedd wedi'u rhestru isod:

- Diffyg tai fforddiadwy i alluogi pobl i fodloni eu hanghenion tai eu hunain
- Pobl yn rhy hwyr yn cysylltu â'r Tîm Atal Digartrefedd
- Disgwyliadau cwsmeriaid
- Nifer y bobl sydd ag anghenion cymhleth ac nad yw eu llwybrau presennol yn effeithiol
- Landlordiaid sector preifat yn gadael y sector (sydd wedi'i nodi yn 6.4.2)
- Dulliau casglu data digartrefedd presennol
- Dulliau asesu anghenion cymorth presennol
- Y cynnydd mewn costau byw a gallu tenantiaid i dalu am lety fforddiadwy, gan gynnwys tai cymdeithasol
- Y camsyniad mai mater yn ymwneud â thai yn unig yw digartrefedd.
- Gall y galw uchel ar y gwasanaeth a chapasiti cyfyngedig o fewn y tîm Atal Digartrefedd effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth, gan gynnwys ymgysylltiad gyda chwsmeriaid. Ni does cyfle i adeiladu ymddiriedaeth, sy'n bwysig i gwsmeriaid
- Recriwtio a chadw
- Cynigir llety lle mae ar gael, nid yw'r cynigion yn seiliedig ar addasrwydd y llety
- Mewn rhai achosion nid yw 'tai fforddiadwy' yn fforddiadwy
- Deall ac ymateb i'r achos sydd wrth wraidd digartrefedd

I oresgyn yr heriau hyn, bydd yn rhaid cyflawni'r anghenion canlynol:

- Datblygu cynllun cyfathrebu i wella argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth i gefnogi pobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd, i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu hopsiynau tai a rheoli eu disgwyliadau.
- Adolygu llwybrau atgyfeirio presennol
- Adolygu systemau cyfrifiadurol TG a ddefnyddir i gasglu data
- Datblygu dull corfforaethol i atal digartrefedd
- Defnyddio astudiaethau achos a marchnata er mwyn lleihau'r stigma o amgylch digartrefedd
- Cynnal ffeiriau swyddi
- Sicrhau fod cynigion o lety yn addas



DRAFT

- Canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar
    - Ystyried sut all y Gwasanaethau Ieuenctid ddarparu cyngor cynnar a chyfryngu gyda theuluoedd gyda'r golwg o leihau digartrefedd ymysg ieuenctid
    - Ystyried sut all wasanaethau Ieuenctid, Addysg a Thai ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc i'w helpu i ddeall eu hawliau a'u dewisiadau
    - Ystyried beth all wasanaethau perthnasau yn yr ardal gynnir o ran cymorth i gyplau mewn angen
    - Ystyried pa gymorth gall yr Heddlu ei gynnig o ran cymorth camdrin domestig ar gyfer staff tai a'r cleientiaid eu hunain

### 6.3 Trawsnewid Ailgartrefu Cyflym

I weithio tuag at gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru i wneud digartrefedd yn rhywbeth 'prin, byr ac na chaiff ei ailadrodd', mae pedwar amcan allweddol wedi cael eu nodi, mae'r adran hon yn ystyried pob amcan; yr heriau allweddol a beth sydd angen ei wneud i oresgyn yr heriau hyn.

#### 6.3.1 Trawsnewid ansawdd a defnydd llety dros dro.

Mae Adran 5.2 yn amlinellu'r heriau allweddol i drawsnewid ansawdd a defnydd llety dros dro, ac mae Adran 5.3 yn amlinellu beth sydd angen ei wneud er mwyn goresgyn yr heriau hyn.

#### 6.3.2 Cynyddu nifer y tai fforddiadwy

Mae nifer o ffactorau cymhleth a rhyngberthynol yn cael effaith ar y broses o gynyddu nifer y tai fforddiadwy i fodloni lefel yr anghenion tai, fel yr amlinellir yn adran 2.1.

Y ffactorau sy'n cael effaith ar y cyflenwad tai fforddiadwy:

| | Ffactor | Disgrifiad |
|---|---|---|
| **Polisi** | Cyfradd Lwfans Tai Lleol. | Mae'r gyfradd yn is na phrisiau rhent y farchnad sector preifat |
| | Newid safonau eiddo e.e. cynnydd mewn safonau gofynnol tystysgrif perfformiad ynni (EPC) ar gyfer eiddo rhent (Rheoliadau Isafswm Safonau Effeithlonrwydd Ynni Domestig). | Nid yw rhai eiddo'n bodloni'r safon bresennol ar gyfer prydlesu, a bydd safon uwch yn cael ei chyflwyno. Fe allai hyn arwain at eiddo'n cael eu tynnu'n ôl o'r farchnad. |
| | Polisi Cynllunio Lleol HOU/10. | Atal pobl rhag creu llety a rennir. |
| **Economaidd** | Mae prisiau rhent sector preifat yn uwch na'r cyfraddau Lwfans Tai Lleol.<br><br>Mae landlordiaid yn gofyn am rent o flaen llaw ar ddechrau'r denantiaeth.<br><br>Mewn rhai achosion, mae Budd-daliadau Tai yn cael eu talu yn uniongyrchol i'r tenantiaid na all gyllidebu. | Nid yw'r sector rhentu preifat yn fforddiadwy i aelwydydd incwm isel ac nid yw'n darparu diogelwch o denantiaeth. O ganlyniad, mae pobl yn amharod i ystyried y sector hwn fel opsiwn. |
| | Cynnydd mewn rhent ail gartrefi a llety gwyliau. | Gostyngiad yn nifer yr eiddo sydd ar gael i'w rhentu yn y sector preifat. |
| | Cynnydd mewn chwyddiant a chostau byw. | Wedi cynyddu'r angen am dai fforddiadwy, ond mae pryderon na fydd rhai aelwydydd yn gallu fforddio tai cymdeithasol hyd yn oed. |
| **Cymdeithasol** | Galw uchel am lety 1 ystafell wely llai. | Diffyg stoc ar draws bob deiliadaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| | Galw uchel am lety mwy. | Diffyg unedau tai cymdeithasol 4+ ystafell wely a fforddiadwyedd y sector preifat. |
| | Galw uchel am lety addas ar gyfer cadeiriau olwyn. | Diffyg stoc ar draws bob deiliadaeth. |
| | Mae pobl yn gallu gweithio o gartref ac yn dewis ail-leoli. | Rhagor o alw am dai ar draws deiliadaethau. |
| **Technoleg** | Wedi helpu i wella prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu ag ymgeiswyr. | Cynnydd yn nisgwyliadau cwsmeriaid. |
| **Cyfreithiol** | Gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016. | Mae'r ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fath newydd o gontractau gael eu cyflwyno i denantiaid, newidiadau i ofynion addasrwydd eiddo a threfniadau adfeddiant. |
| **Yr Amgylchedd** | Tir ar gyfer datblygiad newydd. | Diffyg tir fforddiadwy a phriodol a allai gael effaith ar nifer yr unedau tai fforddiadwy a ddatblygir. Fe allai hefyd gael effaith ar yr hyn a ddatblygir e.e. efallai na fydd tir yn briodol ar gyfer datblygu eiddo addasedig. |
| | NIMBYaeth mewn perthynas â datblygiadau newydd. | Fe allai gael effaith ar ddeiliadaeth a chymysgedd datblygiadau tai newydd. |
| | Cyflenwad a galw presennol. | Mae'r galw presennol yn uwch na'r cyflenwad. |

*I oresgyn yr heriau hyn, bydd yn rhaid cyflawni'r anghenion canlynol:*

- Cyhoeddi gwybodaeth gyfredol mewn perthynas ag anghenion tai lleol i gefnogi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chynlluniau datblygiadau sector preifat
- Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai cymdeithasol presennol
- Defnyddio cyfleoedd cyllido i ddatblygu tai fforddiadwy newydd
- Defnyddio cyfleoedd cyllido i ddatblygu mentrau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel tai fforddiadwy
- Defnyddio cyfleoedd cyllido i ddatblygu mentrau i gynyddu'r cyflenwad llety Sector Rhentu Preifat.
- Sefydlu rhagor o dai a rennir ar gyfer pobl dan 35 oed
- Ystyried trosi llety dros dro ar brydles a) gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, b) gan landlordiaid preifat i'r portffolio HAWS.
- Ystyried adolygu polisïau cynllunio presennol neu weithredu polisïau newydd a fydd yn cynyddu argaeledd lletyau'r Sector Rhentu Preifat
- Ystyried mentrau sy'n cefnogi pobl i gael mynediad at y sector preifat, megis cynlluniau gwarantwr
- Codi ymwybyddiaeth o'r prinder tai

Mae manylion am sut fydd y weledigaeth uchod yn cael ei chyflawni wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Ailgartrefu Cyflym, gweler adran 7.

### 6.3.3 Sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen

Mae'r heriau allweddol i sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r rhai sydd ei hangen fel a ganlyn:

- Pobl nad oes arnynt eisiau ymgysylltu â'r gefnogaeth sydd ar gael. Gall hyn fod am amryw o resymau megis, colli hyder ar ôl profiad negyddol yn y gorffennol
- Pobl sydd methu ymgysylltu ar yr adeg iawn (Gall hyn gael ei weld fel diffyg ymgysylltiad). Efallai bod amryw o resymau pam nad yw pobl yn ymgysylltu ar yr adeg iawn, er enghraifft, ni oes gan rai pobl gyfleusterau i wefru eu ffonau symudol ac yn ei gweld yn anodd cysylltu â gwasanaethau, nid

oes gan rai yr hyder ac yn ei gweld yn anodd cael mynediad at wasanaethau mewn lleoliadau ffurfiol ac nid oes gan rai arian i dalu am deithio i gael mynediad at wasanaethau
- Sefydlu mynediad at gefnogaeth amlasiantaeth briodol
- Parhad y cymorth.
    - Gall symud o lety dros dro i lety parhaol fod yn brofiad unig ac mae angen cymorth ychwanegol.
    - Mae bylchau mewn gwasanaethau ar gyfer pobl sy’n gadael y carchar, pobl ifanc a phobl sy’n gadael yr ysbyty

I oresgyn yr heriau hyn, bydd yn rhaid cyflawni’r anghenion canlynol:

- Rhaid i gymorth gael ei deilwra i anghenion unigol, er mwyn cyflawni hyn mae angen adolygiad o gymorth:
    - Adolygiad o ddarpariaeth tai â cymorth er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni angen a nodir
    - Adolygiad o wasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen er mwyn scirhau ei fod yn bodloni’r angen a nodir ac yn mynd i’r afael ag unrhyw fylchau
    - Ystyried pecyn cefnogi sy’n cynnwys adeiladu hyder personol ac annog cyfranogiad y gymuned er mwyn helpu i leihau unigrwydd
- Adolygu achosion sydd wedi cau yn sgil diffyg ymgysylltiad
- Addasu gwasanaethau i fodloni anghenion cwsmeriaid (darparu gwasanaethau mewn lleoliadau anffurfiol a chynnig mwy o wasanaethau estyn allan)
- Adeiladu ar lwyddiannau arferion da
- Ystyried yr angen am ganolfan frysbennu sy’n darparu dull holistaidd i gefnogi gwasanaethau

Bydd canlyniad y 3 cam olaf uchod yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o beth i’w wneud nesaf a sut.

### 6.3.4 Cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau allweddol i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu ar draws bob gwasanaeth

Mae cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau allweddol yn bwysig er mwyn cyflawni canlyniadau atal cynradd ac uwchradd yn llwyddiannus.

Mae’r heriau allweddol i gryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth fel a ganlyn:

- Cyfathrebu gwael er enghraifft, os nad yw gwybodaeth rhwng budd-ddeiliaid yn cael ei rannu ar yr adeg iawn, gall hyn arwain at oedi yn y gwasanaeth mae cwsmeriaid yn ei dderbyn
- Diffyg dealltwriaeth o’r hyn mae gwasanaethau eraill yn ei wneud
- Gall gyllid a chapasiti gyfyngu sut a pham mae sefydliadau yn cydweithio
- Os oes bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir h.y. os nad yw’r gwasanaeth yn bodloni neu os nad yw’r gwasanaeth yn hygyrch
- Os nad yw’r sefydliad wedi ymrwymo yn llawn ac os yw’r bartneriaeth gydag un unigolyn, gall hyn arwain at ddiffyg cysondeb yn sgil trosiant llafur uchel neu absenoldeb salwch
- Os nad yw sefydliadau yn gweld sut maent yn gweddu i’r agenda ehangach

I oresgyn yr heriau hyn, bydd yn rhaid cyflawni’r anghenion canlynol:

- Cynnal fforymau rheolaidd a digwyddiadau rhwydweithio ar gyfer budd-ddeiliaid allweddol i rannu gwybodaeth
- Cynnal gweithdai gyda’r partneriaid perthnasol i ganolbwyntio ar faterion allweddol ac alinio nodau strategol. Annog budd-ddeiliaid allweddol i ystyried pa rôl maent yn ei chwarae i atal digartrefedd
- Parhau gydag ymgysylltiad gwasanaeth a defnyddwyr i weithredu’r Cynllun
- Digartrefedd i fod yn hyfforddiant gorfodol ar gyfer swyddogion y sector cyhoeddus
- Ystyried landlordiaid sector preifat fel partneriaid allweddol
- Llywodraeth Cymru i ystyried adolygiad o’r data dangosyddion perfformiad a gesglir gan wasanaethau cyhoeddus bob blwyddyn, er mwyn helpu i symleiddio atal digartrefedd ar yd holl feysydd gwasanaeth

DRAFT

- Llywodraeth Cymru i ystyried eu rôl i gefnogi gweithredu'r Cynllun, megis sicrhau fod digon o gyllid mewn lle, ac annog gwaith rhanbarthol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r sgiliau sydd ar gael
- Datblygu dull corfforaethol i weithredu a monitro'r Cynllun Ailgartrefu Cyflym
- Adeiladu ar lwyddiannau trefniadau gwaith partner cyfredol
- Adolygu prosesau atgyfeirio presennol a monitor canlyniadau

### 6.3.5 Cynllun Gweithredu

Bydd cynllun gweithredu blynyddol yn cael ei baratoi sy'n nodi manylion y camau gweithredu i'w cwblhau gan yr awdurdod mewn partneriaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol, er mwyn gweithredu'r strategaeth a chyflawni'r pedwar amcan allweddol sydd wedi'u hamlinellu uchod (gweler adran 7.4). Bydd adroddiadau ar ddarpariaeth y cynllun yn cael eu cyflwyno'n chwarterol i'r Bartneriaeth Strategol Tai a bydd diweddariad blynyddol yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu CBSC.

## 6.4 Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb / Economaidd-gymdeithasol Cychwynnol

Canlyniad asesiad o effaith ar gydraddoldeb yw y bydd y Cynllun yn cael effaith economaidd-gymdeithasol gadarnhaol.  Mae'r Cynllun yn anelu at wella mynediad at dai priodol, fforddiadwy ac o ganlyniad, yn gallu gwella cyfleoedd cyflogaeth.

DRAFT

## 7.0 Cynllunio Adnoddau

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth i gael gwell dealltwriaeth o'r adnoddau sydd eu hangen i weithredu'r Cynllun.

### 7.1 Adnoddau presennol

Mae'r siart isod yn amlinellu'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn y tair blynedd diwethaf i ddarparu llety dros dro, fe welwch fod y costau wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn sgil yr angen cynyddol am lety dros dro ar gyfer pobl sengl:

| | | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| **Llety Argyfwng** | **Cost Llety** | £671,020 | £1,945,127 | £3,193,636 |
| | **Incwm Budd-daliadau Tai** | -£91,001 | -£377,235 | -£370,297 |
| | **Grant Caledi Covid LIC** | | -£982,318 | -£1,470,006 |
| | **Atgyweiriadau** | £730 | £7,248 | £7,157 |
| | **Cost Net** | **£580,749** | **£592,823** | **£1,360,491** |
| | | | | |
| **Llety Prydles** | **Cost Llety** | £556,878 | £570,863 | £656,516 |
| | **Incwm Budd-daliadau Tai** | -£447,830 | -£480,950 | -£510,084 |
| | **Atgyweiriadau** | £90,346 | £103,873 | £100,023 |
| | **Ffi Rheoli (Cartrefi Conwy)** | £105,450 | £100,504 | £117,100 |
| | **Cost Net** | **£304,844** | **£294,291** | **£363,555** |
| | | | | |
| **Cyfanswm** | **Cost Net Llety** | **£885,593** | **£887,114** | **£1,724,045** |

*Mae'r siart isod yn amlinellu'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn y tair blynedd diwethaf i ddarparu cymorth tai:*

| Math o Brosiect | Crynodeb o'r Math o Brosiect | Cyfanswm 2019-2020 | Cyfanswm 2020-2021 | Cyfanswm 2021-2022 |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllun Mynediad SRhP** | | 0 | 0 | 196,000 |
| **Ailgartrefu cyflym / gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan dai** | Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan Dai | 0 | 0 | 0 |
| | Tai yn Gyntaf (wedi'i wirio) | 0 | 0 | 0 |
| | Tai yn Gyntaf (heb ei wirio) | 0 | 0 | 38,000 |
| **Gwasanaethau llety yn unig** | Cyffredinol | 0 | 0 | 0 |
| | Darpariaeth Tywydd Oer | 0 | 0 | 0 |
| | Llety lle nad yw alcohol ar gael | 0 | 0 | 0 |
| | Llety lle mae alcohol ar gael | 0 | 0 | 0 |
| **Gwasanaethau Allgymorth Cysgu Allan** | | 0 | 25,000 | 0 |
| **Gwasanaethau cyfryngu** | | 0 | 0 | 0 |
| **Gwasanaethau galw heibio yn ystod y dydd** | | 0 | 0 | 0 |
| **Gorfodi, ymchwilio neu gydymffurfiaeth â deddfwriaeth tai** | | 0 | 33,000 | 0 |
| **Gweithgareddau sydd wedi'u llunio i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i gydymffurfiaeth â thai** | | 0 | 0 | 0 |
| **Cefnogaeth yn ôl yr angen** | VAWDASV | | 70,094 | 183,703 |
| | Anabledd Dysgu | | 725,799 | 734,451 |
| | Iechyd Meddwl | | 38,000 | 76,000 |
| | Problemau alcohol / camddefnyddio sylweddau | 46,000 | 28,343 | 86,203 |
| | Cyn-droseddwyr | | 55,728 | 56,084 |
| | Pobl Ifanc | | 258,862 | 306,129 |
| | Ffoaduriaid | | 0 | 0 |
| | Pobl Hŷn | 1,369,290 | 990,000 | 1,009,800 |
| | Sipsiwn a Theithwyr | | 0 | 0 |
| | Cyffredinol | 1,449,105 | 772,648 | 1,197,532 |
| | Arall | 0 | 560,226 | 591,430 |
| **Llety â chymorth dros dro** | Anabledd Dysgu | | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Anabledd Corfforol | 0 | 0 | 0 |
| | Iechyd Meddwl | 216,028 | 216,028 | 243,381 |
| | Problemau alcohol a/neu gamddefnyddio sylweddau (llety lle mae alcohol ar gael) | | 0 | 0 |
| | Problemau alcohol a/neu camddefnyddio sylweddau (llety lle nad oes alcohol ar gael) | 306,809 | 325,061 | 395,014 |
| | Cyn-droseddwyr | 35,457 | 17,729 | 268,084 |
| | Pobl Ifanc | 558,662 | 505,912 | 659,544 |
| | Pobl Hŷn | 0 | 0 | 0 |
| | Ffoaduriaid | 0 | 0 | 0 |
| | Cyffredinol | 0 | 592,806 | 770,330 |
| | Arall | 52,308 | 52,308 | 53,354 |
| **Llety â Chymorth Parhaol** | Pobl Hŷn | 0 | 372,024 | 377,844 |
| | Anabledd Dysgu | 2,200,402 | 1,492,943 | 1,554,168 |
| | Arall | 390,000 | 275,774 | 281,289 |
| **Gwasanaethau Gofal Ychwanegol** | | 0 | 0 | 0 |
| **Gwasanaethau Larwm** | VAWDASV | 0 | 0 | 0 |
| | Arall | 99,200 | 92,500 | 92,940 |
| **Ffoaduriaid** | Gwryw | 0 | 0 | 0 |
| | Benyw | 232,374 | 174,280 | 207,197 |
| | Arall | 0 | 0 | 0 |
| **Offer Gwella Diogelwch** | | 0 | 0 | 10,000 |
| **Swyddi GCT nad ydynt yn Rhai Statudol** | | 0 | 0 | 215,625 |
| **Prosiectau Atal Digartrefedd Eraill** | | 0 | 0 | 0 |
| **Arall** | Arall | 692,939 | 159,000 | 209,979 |
| | Gwariant arall heb eu hymrwymo | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | | 7,648,574 | 7,834,065 | 9,814,081 |

*Mae'r siart isod yn amlinellu'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn y tair blynedd diwethaf i ddatblygu tai fforddiadwy:*

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| **Grant Tai Cymdeithasol** | £4,618,847 | £2,897,964 | £8,595,462 |
| **Grant Cyllid Tai II** | £1,199,008 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Grant Cyfalaf wedi'i Ailgylchu** | £306,627 | £0 | £0 |
| **Rhaglen Tai Arloesol** | £621,244 | £1,895,591 | Amherthnasol |
| **Swm Cymudol** | £0 | £80,000 | £0 |

*Mae'r siart isod yn amlinellu'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn y tair blynedd diwethaf i ddatblygu mentrau sector preifat i gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy:*

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| **Swm Cymudol Parciau Cenedlaethol** | Amherthnasol | £42,204 | £57,795 |
| **Cam 2 Cynllun Digartrefedd Llywodraeth Cymru** | Amherthnasol | Amherthnasol | £392,740 |
| **Cyllideb Tai Gwag (llog diofyn benthyciad Troi Tai yn Gartrefi)** | Amherthnasol | £24,581 | £66,172 |
| **Creu Lleoedd** | Amherthnasol | Amherthnasol | £248,500 |
| **Cynllun (Peilot) Prydlesu Preifat Llywodraeth Cymru** | £2,036 | £27,811 | £60,808 |

## 7.2 Staffio

Mae Datrysiadau Tai Conwy'n darparu opsiynau tai a gwasanaethau digartrefedd yr awdurdod, mewn partneriaeth â Chartrefi Conwy. Cafodd ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2014 ac mae'n darparu'r gwasanaethau allweddol sy'n gysylltiedig â chyngor a chymorth opsiynau tai, rheoli'r Gofrestr Tai, ystod eang o waith atal digartrefedd, rheoli eiddo a phrydlesau'r Sector Rhentu Preifat a chyflawni dyletswyddau digartrefedd statudol.

Mae'r Tîm Atal Digartrefedd o fewn Datrysiadau Tai Conwy'n gyfrifol am ddarparu dyletswyddau statudol Conwy mewn perthynas â digartrefedd. Mae'r tîm yn cynnwys un Arweinydd Tîm, 2 Uwch Weithiwr

Achosion, 12 Swyddog Atal Digartrefedd (cyfwerth â llawn amser), 3 Cymhorthydd Atal Digartrefedd, 3 Swyddog Symud Ymlaen a 2 Swyddog Mynediad Sector Preifat. O fewn y Tîm Atal Digartrefedd, mae gan 3 swyddog arbenigol rolau sy'n canolbwyntio ar anghenion rhai sy'n gadael carchar, pobl ifanc a phobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty.

*Mae cyllideb staffio'r Tîm Atal Digartrefedd fel a ganlyn:*

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cyllideb Staffio'r Tîm Atal Digartrefedd** | £772,168 | £766,297 | £834,792 |

Fel rhan o'r bartneriaeth ehangach â Chartrefi Conwy, mae'r Cyngor yn ariannu nifer o swyddi o fewn Cartrefi Conwy;

- Swyddog Cyswllt Landlordiaid a gweithiwr achosion cyngor ariannol Cyngor ar Bopeth. Caiff y rhain eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai, ac mae'r costau wedi'u cynnwys yn y tabl Grant Cymorth Tai uchod.)
- Y swyddogion llety sy'n rheoli'r eiddo prydles a ddefnyddir ar gyfer llety dros dro
- Pump Ymgynghorydd Cwsmeriaid Canfod Cartref sy'n ymgymryd â gwaith brysbennu, darparu gwybodaeth am opsiynau tai a phrosesu ceisiadau tai cymdeithasol

### 7.3 Blaenoriaethau

Mae'r cynllun adnoddau yn adran 7.4 yn darparu'r manylion ynghylch pa waith fydd yn cael ei gwblhau i weithredu'r Cynllun. Byddwn yn blaenoriaethu'r camau canlynol:

- Sefydlu fframwaith i ddarparu'r Cynllun, gan gynnwys cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth.
- Cynyddu'r capasiti o fewn y tîm atal digartrefedd.
- Addasu gwasanaethau cefnogi i fodloni anghenion cwsmeriaid
- Parhau i gynyddu'r cyflenwad tai fforddiadwy, gan gynnwys datrysiadau arloesol i gynyddu llety rhent preifat.

### 7.4 Cynllun adnoddau

Mae nifer o ganlyniadau y mae'n rhaid eu cyflawni er mwyn gallu symud oddi wrth dull darparu presennol y gwasanaethau digartrefedd a lefel y galw presennol i ddarparu'r cynllun ailgartrefu cyflym, lle na ellir atal digartrefedd. Ni fydd yr awdurdod yn gallu cyflawni'r trawsnewidiad hwn ar ei ben ei hun; mae cyfranogiad ystod eang o bartneriaid yn allweddol.

Mae camau lefel uchel wedi'u nodi ar gyfer cyfnod dwy flynedd y cynllun hwn. Mae nifer o gamau allweddol sy'n gysylltiedig â phontio i ddull ailgartrefu cyflym yn golygu bod angen adolygu trefniadau presennol, ac ystyried datblygu dulliau newydd. Nes y bydd canlyniad yr ymarferion hyn yn hysbys, ni ellir ychwanegu at y cynllun adnoddau. Mae disgwyl i'r siwrnai o newid a gwelliant sydd ei hangen ddarparu rhywfaint o arbedion o ran costau yn ogystal ag osgoi rhai mathau o wariant yn y dyfodol, ond nid yw'n hysbys ar hyn o bryd pryd fydd y rhain yn cael eu gwireddu, e.e. o ganlyniad i ganlyniadau atal gwell, defnyddio llai o lety gwely a brecwast.

Bydd gwaith a gwblheir yn y flwyddyn gyntaf, gan gynnwys ymgynghori ac ymgysylltu, yn pennu'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, ac mae argaeledd adnoddau'n ystyriaeth allweddol yn yr hyn y mae modd ei gyflawni.

Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro a'i ddiweddaru bob blwyddyn fel y disgrifir yn adran 6.3.5.

**Blwyddyn 1 a 2 2022/23 - 2023/24**

1) **Cynyddu nifer y tai fforddiadwy**

| Nifer. | Cam gweithredu | Tasg | Grŵp Darparu | Adnoddau | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Cyhoeddi gwybodaeth gyfredol mewn perthynas ag anghenion tai lleol i gefnogi cynlluniau datblygu. | Datblygu Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn unol â chanllawiau newydd Llywodraeth Cymru. | Partneriaeth Strategol Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Adroddiad wedi'i gyhoeddi. Ymgysylltiad budd-ddeiliaid. |
| | | Adolygu Prosbectws Tai Lleol Conwy. | Grŵp Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Amser staff - o fewn y strwythur presennol. | Dwywaith y flwyddyn Ebrill Hydref | Adroddiad wedi'i gyhoeddi. |
| | | Cynnal astudiaethau Ymchwil Tai mewn cymunedau gwledig. | Grŵp Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Amser staff - o fewn y strwythur presennol. | Chwarterol | Adroddiad wedi'i gyhoeddi. Ymgysylltiad budd-ddeiliaid. |
| | | Paratoi adroddiad galw tai arbenigol chwarterol. | Grŵp Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Chwarterol. | Adroddiad wedi'i gyhoeddi. |
| | | Paratoi adroddiad galw tai cymdeithasol a chanolradd chwarterol. | Grŵp Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Chwarterol. | Adroddiad wedi'i gyhoeddi. |
| 1.2 | Cynyddu nifer y tai fforddiadwy newydd i fodloni'r angen tai lleol. | Rheoli'r Cynllun Datblygu Rhaglen mewn partneriaeth â'r Cymdeithasau Tai sydd â pharthau gwahanol i wneud y mwyaf o Gyllid Llywodraeth Cymru a datblygu'r '*llety cywir yn yr ardaloedd cywir*' | Grŵp Datblygu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Chwarterol. | Mesur blynyddol:<br><br>Nifer yr unedau **a ariannir** yn ôl maint a deiliadaeth.<br><br>Cymharu data cyflenwi a galw. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Cyfanswm y Grant Tai Cymdeithasol a wariwyd gan gynnwys unrhyw gyllid ychwanegol.<br><br>Nifer y cartrefi fforddiadwy **a ddarparwyd** yn ôl maint a deiliadaeth. |
| | | Gweithio mewn partneriaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol i ddatblygu tai dan arweiniad y gymuned mewn ardaloedd gwledig. | Grŵp Darparu Tai Fforddiadwy | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Chwarterol. | Nifer yr unedau sydd wedi'u cynllunio a/neu eu darparu yn ôl maint a deiliadaeth.<br>Nifer y bobl leol sy'n gallu aros o fewn eu cymunedau. |
| | | Gweithio mewn partneriaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol i ddatblygu dull wedi'i arwain gan dai i adfywio canol trefi. | Partneriaeth Strategol Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Chwarterol. | Nifer yr unedau sydd wedi'u cynllunio a/neu eu darparu yn ôl maint a deiliadaeth.<br>Nifer yr unedau gwag sy'n cael eu defnyddio eto. |
| | | Gweithio gyda'r Bwrdd Rhaglen Tai Fforddiadwy i ddarparu tai fforddiadwy ar dir y sector cyhoeddus. | Grŵp Darparu Tai Fforddiadwy | Amser staff - o fewn y strwythur presennol<br><br>Grant Tai Cymdeithasol | Chwarterol. | Y tir a ddefnyddiwyd i ddarparu tai fforddiadwy.<br><br>Nifer yr unedau sydd wedi'u cynllunio a/neu eu darparu yn ôl maint a deiliadaeth.<br><br>Dyraniad grant i gefnogi'r datblygiad. |
| | | Gwneud sylwadau ar bob cais Cynllunio Tai i sicrhau cymysgedd briodol o dai fforddiadwy. | Grŵp Darparu Tai Fforddiadwy | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Chwarterol | Nifer yr unedau sydd wedi'u cynllunio a/neu eu darparu yn ôl maint a deiliadaeth. |
| | | Ystyried datrysiadau arloesol i leihau'r amser aros am eiddo tai cymdeithasol llai a mwy. | Grŵp Datblygu Landlordiaid | Amser staff - o fewn y | Mawrth 2023 | Nifer yr unedau sydd wedi'u cynllunio a/neu eu darparu yn ôl maint a deiliadaeth. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (e.e. podiau / peilot tai a rennir) | Cymdeithasol Cofrestredig | strwythur presennol<br><br>Cyllid cyfalaf (mae'r costau'n anhysbys ar hyn o bryd). | | |
| | | Caffael 3 eiddo i Gynllun Prydlesu Cymru. | Grŵp Darparu'r Sector Preifat | Amser staff - o fewn y strwythur presennol<br><br>Cyllid cyfalaf ar waith - £XX | Mawrth 2023 | Nifer yr unedau sydd wedi'u darparu yn ôl maint a deiliadaeth. |
| | | Datblygu cynllun cyfathrebu er mwyn dangos sut fydd y deunyddiau marchnata a brandio tai corfforiaethol Conwy (newydd) yn cael eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth o'r prinder tai a lleihau stigma o amgylch digartrefedd. | Rhaglen Tai Fforddiadwy | Amser staff – o fewn y strwythur presennol. | Mawrth 2023 | Cynllun cyfathrebu mewn lle i gefnogi gweithrediad y cynllun gweithredu hwn. |
| **1.3** | Parhau i wneud y defnydd gorau o'r stoc tai cymdeithasol presennol | Datblygu a gweithredu dull cyson i weithgarwch sicrhau'r maint cywir (rightsizing) a chyfathrebu ar draws Gogledd Cymru. | Grŵp sicrhau'r maint cywir (righzsizing) strategol rhanbarthol | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2023 | Cynllun newydd wedi'i ddatblygu a'i weithredu.<br><br>Nifer y tenantiaid sy'n symud i dŷ llai.<br><br>Llai o amser aros ar gyfer eiddo mwy. |
| | | Adolygu Polisïau Gosod Lleol | Grŵp Darparu Rheoli Tai Cymdeithasol | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Rhagfyr 2022 | Polisïau Gosod Lleol wedi'u diweddaru a'u monitro'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ateb y diben. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adolygu'r polisi dyrannu mewn partneriaeth â phartneriaid Un Llwybr Mynediad at Dai gan gynnwys cynllun ar gyfer rheoli llefydd gwag. | Grwpiau Llywio Un Llwybr Mynediad at Dai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Rhagfyr 2023 | Polisi diwygiedig ar waith. |
| | | Archwilio opsiynau i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd fel tai fforddiadwy. | Gweithgor Tai Gwag | Amser staff - o fewn y strwythur presennol<br><br>Cyllid cyfalaf- oddeutu 30 uned £750,000 (£25,000 yr uned) | Mehefin 2022 Rhagfyr 2022 | Cynllun newydd wedi'i ddatblygu a'i weithredu.<br><br>Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd a'u rhentu/gwerthu ar gyfradd fforddiadwy. |
| | | Defnyddio cyfleoedd cyllido eraill i ddatblygu mentrau i gynyddu'r cyflenwad llety Sector Rhentu Preifat. | Grŵp Darparu'r Sector Preifat | Amser staff - o fewn y strwythur presennol.<br><br>Cyllid cyfalaf (mae'r costau'n anhysbys ar hyn o bryd). | Yn mynd rhagddo | Cynllun newydd wedi'i ddatblygu a'i weithredu.<br><br>Nifer yr unedau sydd wedi'u darparu yn ôl maint a deiliadaeth. |
| | | Ystyried adolygu polisïau cynllunio presennol neu weithredu polisïau newydd a fydd yn cynyddu argaeledd llety'r Sector Rhentu Preifat | Grŵp Darparu Tai Fforddiadwy | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | |
| | | Ystyried trosi llety dros dro ar brydles a) gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, b) gan landlordiaid preifat i'r portffolio HAWS. | Grŵp Strategol Ailgartrefu Cyflym | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Nifer yr unedau parhaol sydd wedi'u darparu yn ôl maint a deiliadaeth. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyllid cyfalaf (mae'r costau'n anhysbys ar hyn o bryd). | | |

**2) Trawsnewid ansawdd a defnydd llety dros dro**

| Nifer. | Cam gweithredu | Tasg | Grŵp Darparu | Adnoddau | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.1** | Cyflawni adolygiad o'r llety dros dro a ddefnyddir ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn bodloni anghenion tenantiaid | Ystyried y cyfleusterau sydd ar gael i bobl sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd a defnyddio'r adborth a gesglir yn ystod ymgynghoriad RRP i ganfod beth sydd angen cael ei wneud i sicrhau fod y llety yn bodloni anghenion rŵan ac yn y dyfodol. | Grŵp strategol ailgartrefu cyflym | Amser staff – o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Adroddiadau gan gynnwys argymhellion.<br><br>Gweithredu argymhellion. |
| **2.2** | Cyflawni adolygiad o'r polisïau a gweithdrefnau sydd mewn lle ar hyn o bryd, i sicrhau fod gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddarparu | Ystyried yr adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad RRP er mwyn canfod beth sydd angen cael ei wneud i wella cyfathrebiaeth rhwng darparwyr gwasanaeth/ yr awdurdod lleol a phobl sy'n byw mewn llety dros dro<br><br>Ystyried trefniadau diogelu mewn llety dros dro a monitro'r effeithiolrwydd<br><br>Ystyried yr adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad RRP i ganfod beth sydd angen cael ei wneud i wella siwrnai y cwsmer pan maent yn cael mynediad at lety dros dro | Grŵp strategol ailgartrefu cyflym | Amser staff – o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Gwell cyfathrebu<br><br>Mae pobl sy'n byw mewn llety dros dro yn teimlo'n ddiogel<br><br>Digartrefedd ddim yn cael ei ailadrodd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.3** | Sicrhau fod pobl sy’n byw mewn llety dros dro yn cael cynnig llety addas cyn gynted â phosibl gyda’r cymorth priodol | Adolygu’r polisi dyrannu mewn partneriaeth â phartneriaid SARTH<br><br>Cyflawni adolygiad o’r dull prydlesu uniongyrchol dros dro i sirhau fod blaenoriaeth yn cael ei roi i aelwydydd gyda phlant sy’n byw mewn llety Gwely a Brecwast, er mwyn lleihau effeithiau niweidiol | Grŵp strategol ailgartrefu cyflym | Amser staff - o fewn y strwythur Tîm Atal Digartrefedd newydd (darperir y costau uchod). | Mawrth 2024 | Caiff ymgeiswyr eu symud ymlaen ac mae’r amser aros yn lleihau |
| | | Defnyddio cyfleoedd cyllido i ddatblygu dulliau newydd ar gyfer darparu llety dros dro tymor byr. | Grŵp Darparu Tai Fforddiadwy | Amser staff - o fewn y strwythur presennol<br><br>Cyllid cyfalaf - mae’r costau’n anhysbys ar hyn o bryd. | Yn mynd rhagddo | Darpariaeth newydd wedi’i ariannu a/neu ar waith |

### 3) Sicrhau bod cefnogaeth ar gael i’r rhai sydd ei hangen

| Nifer. | Cam gweithredu | Tasg | Grŵp Darparu | Adnoddau | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.1** | Anghenion cefnogi i gael eu teilwra i anghenion unigol | Adolygu gwasanaethau cefnogaeth a mynd i’r afael ag unrhyw fylchau | Sefydlu grŵp newydd. | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Adroddiadau gan gynnwys argymhellion. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Adolygu gwasanaethau cefnogi dros dro a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau | Sefydlu grŵp newydd. | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Adroddiadau gan gynnwys argymhellion. |
| | | Adolygu systemau cyfrifiadurol TG a ddefnyddir i gasglu data | Sefydlu grŵp newydd. | Amser staff - o fewn y strwythur presennol<br><br>Cyllid cyfalaf er mwyn prynu meddalwedd newydd - mae'r costau'n anhysbys. | Mawrth 2024 | System newydd ar waith<br><br>Caiff anghenion cymorth eu casglu a gellir eu defnyddio i lywio cynlluniau gwasanaeth. |
| | | Ystyried yr angen am ganolfan frysbennu sy'n darparu dull holistaidd i gefnogi gwasanaethau | Sefydlu grŵp newydd. | Amser staff - o fewn y strwythur presennol<br><br>Cyllid cyfalaf a refeniw i sefydlu canolfan frysbennu | Mawrth 2024 | Adroddiadau gan gynnwys argymhellion. |
| **3.2** | Addasu'r gwasanaethau i fodlini anghenion y cwsmeriaid | Datblygu cynllun i ddarparu gwasanaethau mewn lleoliadau anffurfiol | Sefydlu grŵp newydd | Amser staff – o fewn strwythurau presennol. | Rhagfyr 2023 | Gwasanaeth yn gweithredu mewn lleoliadau gwahanol |
| | | Adolygu achosion sydd wedi cau yn sgil diffyg ymgysylltiad<br><br>Adolygu prosesau atgyfeirio cyfredol a monitro'r canlyniadau | Sefydlu grŵp newydd | | Mehefin 2023 | Adroddiad yn nodi'r argymhellion. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.3** | Canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar | Ystyried sut all Wasanaethau Ieuenctid ddarparu cyngor cynnar a chyfryngu posibl i deuluoedd gyda'r golwg o leihau digartrefedd ymysg pobl ifanc<br><br>Ystyried sut all wasanaethau Ieuenctid, Addysg a Thai ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc i'w helpu i ddeall eu hawliau a'u hopsiynau<br><br>Ystyried beth all wasanaethau perthnasau yn yr ardal eu cynnig o ran cymorth i gyplau mewn angen<br><br>Ystyried pa gymorth all yr Heddlu ei gynnig o ran cymorth camdrin domestig i staff tai ac i'r cleientiaid eu hunain | Sefydlu grŵp newydd | | Mawrth 2024 | |

**4) Cryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau allweddol i sicrhau bod atal digartrefedd yn cael ei flaenoriaethu ar draws pob gwasanaeth**

| Nifer. | Cam gweithredu | Tasg | Grŵp Darparu | Adnoddau | Amserlen | Mesur |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.1** | Pontio i ddull ailgartrefu cyflym gan ddefnyddio fframwaith rheoli prosiectau'r Cyngor | Nodi ac ymgysylltu gyda phartneriaid allweddol i sefydlu'r grwpiau monitro a darparu hanfodol. | Partneriaeth Strategol Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Ionawr 2020: | Datganiadau Cyfraniad gan Bartneriaid yn nodi eu rôl o fewn gwaith atal digartrefedd.<br><br>Fframwaith rheoli prosiectau gweithredol i ddarparu'r Cynllun. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4.2** | Datblygu dull corfforaethol i atal digartrefedd | Cynnal gweithdy gyda phartneriaid perthnasol i ganolbwyntio ar faterion allweddol ac alinio nodau strategol | Partneriaeth Strategol Tai | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2023 | Canfod ffyrdd newydd o weithio |
| | | Digartrefedd i fod yn Hyfforddiant gorfodol i swyddogion y sector cyhoeddus | Partneriaeth Tai Strategol | Amser staff – o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Datblygu a gweithredu modiwl hyfforddiant newydd |
| **4.3** | Gwella cyfathrebu gyda budd-ddeiliaid allweddol a'u hannog i ystyried pa rôl maent yn ei chwarae i atal digartrefedd | Hwyluso digwyddiad rhwydweithio gyda budd-ddeiliaid allweddol i rannu gwybodaeth | Grŵp strategol ailgartrefu cyflym | Amser staff - o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2023<br><br>Mehefin 2023<br><br>Medi 2023<br><br>Rhagfyr 2023 | Mae budd-ddeiliaid allweddol yn rhannu gwybodaeth berthnasol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn mae gwasanaethau eraill yn ei wneud |
| | | | | | | Nodau strategol wedi'u halinio. |
| | | Sefydlu fforwm defnyddiwr gwasanaeth<br><br>Cynnal gweithdy gyda phartneriaid perthnasol i ganolbwyntio ar faterion allweddol ac alinio nodau strategol | Grŵp strategol ailgartrefu cyflym | Amser staff – o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2023 | Sicrhau fod y gwasanaeth yn bodloni anghenion ei gwmseriaid rŵan ac yn y dyfodol<br><br>Canfod ffyrdd newydd o weithio |
| **4.4** | Lobïo Llywodraeth Cymru i chwarae rôl i weithredu'r Cynllun | LIC i adolygu'r data dangosydd perfformiad a gesglir gan wasanaethau cyhoeddus bob blwyddyn, i helpu symleiddio gwaith atal digartrefedd ar draws yr holl feysydd gwasanaeth | Partneriaeth Tai Strategol | Amser staff – o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Ymateb gan LIC |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | LlC i annog gwaith rhanbarthol | Partneriaeth Tai Strategol | Amser staff – o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Ymateb gan LlC |
| | | LlC i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i weithredu'r Cynllun | Partneriaeth Tai Strategol | Amser staff – o fewn y strwythur presennol | Mawrth 2024 | Ymateb gan LlC |

DRAFT

DRAFT